




~ CROESAIR ~

gan Agrestis



Ar Draws

1. Gwaelod (5)
4. *Gweler 24 i lawr*
7. "Heb ei —, heb ei eni" (3)
8. Cronfa ddŵr (7)
9. Bydd rhai'n chwyrnu wrth wneud hyn (5)
11. Yr hyn a wna cyw wrth ddod allan o'r wy (4)
12. Yma, mae modd croesi afon heb bont (3)
13. Unawd mewn opera (4)
16. Y *Twr a Brad* (6)
18. Darn o ddefnydd (6)
20. Clod (4)
21. Nid byr (3)
22. Y dydd Mawrth cyn y Grawys (4)
27. Gwlad y Taj Mahal (5)
28. Dinistr (7)
29. Dinas ym Mrasil sy'n enwog am ei charnifal (3)
30. Mae hwn yn dangos yr amser (4)
31. Gwraig (5)

I Lawr

1. Bod yn aflonydd oherwydd poen (5)
2. Mae un melys gan y rhai sy'n hoffi teisen (4)
3. Mae un yn ôl Luc ac un arall yn ôl loan (6)
4. Siŵr (4)
5. Cartref yr Iesu (7)
6. Y papur newydd dyddiol Cymraeg cyntaf? (1,3)
10. X+X (5)
14. Mur (3)
15. Mae pedwar mewn dwsin (3)
16. Roedd hon yn werth hanner hen geiniog (5)
17. Anghyson (7)
19. Rhodd i'r tlawd (6)
23. Merch yn hannerysgwyd (5)
24. a 4. ar draws Nawddsant Cymru (4)
25. Cae yn Sir Benfro (4)
26. Mul (4)

Cystadleuaeth agored - cynigir gwobr y mis hwn eto.
Atebion at yr Uwch Olygydd erbyn **20 Ebrill 2006**.

ENW:

CYFEIRIAD:

ENILLYDD CROESAIR MAWRTH:

Meinir Morgan, Heulfryn, Llanedi, Pontarddulais

ATEBION

Ar Draws: 5. Llydaw; 6. Wyneb; 8. Gwin; 9. Fel; 10. Dail; 11. Creulon; 13. Rhagor; 16. Parti; 18. Diflasu; 21. Talp; 23. Lot; 24. Pabi; 25. Yfory; 26. Whion.

I lawr: 1. Aden; 2. Chwefror; 3. Gwely; 4. Ynad; 5. Llawer; 7. Blingo; 12. Ust; 14. Ail; 15. Distewi; 17. Abaty; 19. Sebon; 20. Olwyn; 22. Plod; 24. Prin.

~ DYDDIADUR ~

Cyfraniadau i ddyddiadur Mai i gyrraedd swyddfa
Menter Bro Dinefwr neu e-bost *Y Lloffwr* erbyn 20 Ebrill

EBRILL

- 12 Sioe Ffasiwn gyda Dyfed Menswear a Krystelles. Sylwebydd: Huw Rees (Ffasiwn) am 7:30 y.h. ar Gampws Pibwrlwyd, Caerfyrddin. Tocynnau yn £5 (yn cynnwys gwydraid o win). Tocynnau ar gael o holl gampysau Coleg Sir Gâr ac ar 01554 748570. Bydd yr elw yn mynd tuag at daith astudio myfyrwyr Coleg Gelli Aur i Seland Newydd 2006.
- 20 Cwrrdd Cenhadol Chwiorydd Rhan Uchaf Gogledd Myrddin. Cynhelir oedfa'r Gwanwyn yn y Tabernacl, Llanymddyfri am 2.00pm Siaradwraig wadd Mrs Einir Jones, Rhydaman.
- 25 Drama Esther, Saunders Lewis, yn y Lyric, Caerfyrddin Cyfarwyddwr – Daniel Evans. Cast yn cynnwys Nia Roberts a Rhys Richards.
- 27 Clwb Cinio Cymraeg Llandeilo yn yr Hydd Gwyn, Llandeilo - noson agored - 7.45pm. Siaradwyr gwadd, Beti George ac Arfon Haines Davies. Enwau i Arwyn Davies, 01558 822200.
- 28 Ffair Wanwyn C.Ff.I Llangadog yn Neuadd Gymunedol Llangadog am 6.30pm. Pris mynediad £1. Nifer o stondinau amrywiol ac adloniant gan C.Ff.I Llangadog a llawer mwy! Llywydd y noson Geraint Lloyd, Radio Cymru. Am fanylion, cysyllter â Mary Evans 01558 685236.
- 29 Cwmni Cudyll Coch yn perfformio dwy gomedi fer yn Neuadd yr Eglwys, Llandyfan am 8pm. Trefnir gan Sioe Amaethyddol Trap. Offer Cyfieithu ar gael. Ffoniwch 01558 823213 / 823265 am docynnau.

MAI

- 1 Carnifal Pumsaint
- 12 Cwmni Dram Cudyll Coch yn perfformio dwy ddrama fer yn Neuadd yr Eglwys, Abergorlech ar 12 Mai am 7.30pm
- 14 Ras Hwyl Sioe Trap am 11 o'r gloch. Elw 50% Cymdeithas y Clefyd Crohn's, 50% Sioe Trap. Manylion pellach 01558 823213 / 823265.
- 14 Cymnafa Fodern i ddathlu 60 o flynyddoedd C.Ff.I Llanfynydd yng nghapel Capel Isaac am 7pm. Arweinyddes Davina Evans gyda band.
- 21 Slow Food Sir Gâr. Profiad bwyd arbennig yng Ngwesty'r Cawdor gyda chogyddion gorau'r ardal a sgysiau, bwyd, ocsiwn, gwin a mwy. Cysylltwch â Margaret Rees ar 01558 669116 neu 07814/24972
- 27 Aduniad Ysgol Llansadwrn am 2pm.
- 27 Cyngerdd i ddathlu 60 o flynyddoedd C.Ff.I Llanfynydd ar gae Brynawelon, Llanfynydd. Gwesteion: Gillian Elisa, Ina Morgan a'r Tri Tenor. I ddechrau am 7.30pm. Tocynnau ar gael oddi wrth Gwenfyl Evans 01558 685322 neu Bethan Humphreys 07966 554220.
- 29 Arwethiant Cist Car Sefydliad y Merched ar Gae'r Dref, Pumsaint.

MEHEFIN

- 23-25 Gŵyl Gardd Cymru - Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Gerddi Aberglasney a Parc Dinefwr.
- 25-30 Gŵyl Bro Dinefwr 2006, i gynnwys cymanfa ganu, cwis chwaraeon, stomp y beirdd, noson ddramâu, noson gyda Lyn Ebenezer a phenwythnos clo yng nghwmni Dafydd Iwan a'r Band, Bryn Fôn a'r Band, Elin Fflur a'r Band a Mattoidz. Manylion pellach a thocynnau ar gael o swyddfa Menter Bro Dinefwr ar (01558) 825336.

W.D. LEWIS a'i Fab

MASNACHWYR AMAETHYDDOL

Cangen Pumsaint, Broneb Stores, Pumsaint
Llanwrda, Sir Gaerfyrddin ☎ (01558) 650215

AMEICH HOLL NWYDDAU AMAETHYDDOL CYSYLLTWCH Â NI.



Am fusnes cyfeillgar, teuluol, profiadol yn y byd
amaethyddol, heb os, i'ch stoc ceuch fwydydd
maethlon yn W.D. a sylw prydlon.

Y LLOFFWR



YN Y RHIFYN HWN...

- Efengyl Sant Teilo
- Llwyddiant Eisteddfod
- Atgof o'r Gorffennol
- Newyddion Bro
- Cystadlaethau, a llawer mwy...

ylloffwr@papurbro.org

RHIF 273

PAPUR BRO CYLCH DINEFWR

EBRILL 2006

75c

AER AC ARIAN I'R URDD!



Gweler aelodau o Bwyllgor Apêl Bro'r Cestyll yn rhyddhau tua 600 o falwns yn ystod Eisteddfod Rhanbarth Dwyrain Caerfyrddin yn Ysgol Tre-gib ar ddydd Sadwrn olaf mis Mawrth fel rhan o'r ymgyrch i gyrraedd y targed o £10,000 at Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2007. Noddwyd yr achlysur gan *LBS Builders Merchants*. Diolch hefyd i Tim Amery am gyfrannu'r wobwr o daith mewn balwn go iawn i'r enillwyr ac i Fenter Bro Dinefwr am eu cymorth a'u cefnogaeth.

~ GOLYGYDDOL ~

Mae'r Pasg ar ein gwarthaf ac mae nifer yn ein plith wedi rhoi'r gorau dros gyfnod y Grawys i ryw fwyd neu ddiod penodol gan ddefnyddio'r cyfnod fel cyfle i golli pwysau, i fwyta'n iach neu i brofi pa mor ddisgybledig yr ydym! Mae'r bwriadau yn rhai digon canmoladwy, ond mor dila ydynt yn wyneb y newyn difrifol sydd yn y byd – y newyn yr atgoffwyd ni ohono yn ddiweddar yn sgîl dathliadau Pythefnos Masnach Deg. Pigwyd fy nghydwylbod yn arw wrth geisio dirnad bywyd y fam a'i phlentyn yn anialwch creulon y Trydydd Byd yn 'byw' ar y nesa peth i ddim, nid yn ymptydio am gyfnod byr, ond yn newynu pob dydd o'r flwyddyn. Fe gofiwch y gwnaed Caerdydd yn Brifddinas Masnach Deg gyntaf y byd ym Mawrth 2004, ond eto i gyd, mae llawer ohonom ar lawr gwlad yn ddi-hid, os nad yn ddiarwybod, o'r hyn y gallwn ei wneud er mwyn cefnogi'r cynllun Masnach Deg, a thrwy hynny geisio lleihau tlodi'r byd. Yr hyn a wna'r cynllun yw sicrhau bod cynhyrchwyr yn cael eu trin yn deg ac yn cael pris teg am eu cynnyrch, yn hytrach na chael eu gormesu gan fusnesau rhyngwladol anferth nad ydynt yn poeni'r un iot am egwyddor a chyfiawnder. Ein cyfrifoldeb yw dewis nwyddau fel bananas a choffi sydd â Marc Masnach Deg arnynt i'w rhoi yn ein basged siopa yn wythnosol. Pe buasem yn gwneud cyn lleied â hyn, byddem yn sicrhau bywoliaeth cymaint gwell i lawer o dlodion y byd. Ac mae cymaint yn fwy na newid ein harferion siopa personol y gallem ei wneud – mae gennym i gyd gysylltiadau gydag ysgol, gweithle, festri neu glwb. A sôn am weithgarwch cymunedol, mae'r *Lloffwr* y mis hwn eto yn llawn newyddion a cholofnau difyr a baratowyd yn ofalus gan gyfranwyr dawnus, lleol, ac rwy'n siwr y cewch flas ar y darllen. Mwynhewch y rhifyn a pheidiwch â'i gor-wneud hi gyda wyau'r Pasg, oni bai ichi ddewis siocled Masnach Deg wrth gwrs!

EMB

HYSBYSEBWCH YN Y LLOFFWR

Mae tua 3,000 o bobl yn darllen *Y Lloffwr* bob mis, felly os ydych am dynnu sylw at eich busnes gallwch hysbysebu yn y papur am brisau cystadleuol iawn gyda gostyngiad o 50% am hysbyseb blwyddyn (10 rhifyn).

	1 Mis	10 Mis
Tudalen Gyfan	£120.00	£600.00
1/2 Tudalen	£60.00	£300.00
1/4 Tudalen	£30.00	£150.00
1/8 Tudalen	£15.00	£75.00
1/12 Tudalen	£10.00	£50.00
1/24 Tudalen	£5.00	£25.00

Hysbyseb Deddf Llywodraeth Leol £60.00 (1 mis)
Dosbarthu taflenni/cylchlythyron £50.00 (1 mis)

Gellir trafod anghenion arbennig megis cornel neu waelod tudalen, clawr ôl neu blaen fel bo'r galw. Rhaid talu ymlaen llaw i dderbyn y telerau uchod a rhoddir copi am ddim o'r *Lloffwr* i bob hysbysebwr. Am fanylion pellach cysylltwch â Wyn Williams, Swyddog Hysbysebion *Y Lloffwr* ar:

☎ (01550) 777834

~ SWYDDOGION Y LLOFFWR ~

Cadeirydd

Mererid Vaughan Jones
3 Llys Pencrug, Llandeilo
☎ (01558) 823839

Uwch Olygydd

J. Mansel Charles
Sarn Gelli
Llanegwad, Nantgaredig
Caerfyrddin, SA32 7NL
☎ (01558) 668823
☎ (07970) 031888
✉ yloffwr@papurbro.org

Ysgrifennydd

Rhian Morgan
☎ (01550) 777107

Trysorydd

Owain Siôn Gruffydd
☎ (01558) 825336

Swyddog Derbyn Taliadau

Fiona Walters
Banc Barclays, Llandeilo

Swyddog Hysbysebion

Wyn Williams
☎ (01550) 777834

Swyddog Gwerthiant

Ellyn Davies
☎ (01558) 650507

Swyddog Tanysgrifio

Peter Harries
☎ (01558) 823075

Swyddog Clwb Cefnogwyr

Peter Harries
☎ (01558) 823075

Teipio a Chysodi

Menter Bro Dinefwr

Argraffu

Lewis Argraffwyr, Caerfyrddin

Golygyddion y Mis - 2006

Ionawr/Chwefror
J. Mansel Charles
Mawrth
Gareth Vaughan Jones
Ebrill
Elin Bishop
Mai
Len Richards
Mehefin
Mererid Vaughan Jones
a Christine Jones
Gorffennaf/Awst
Owain a Cerys Gruffydd
Medi

T.M. Thomas
Hydref
Sharon Morgan
Tachwedd
Gwenda Rees
Rhagfyr
Lynwen Davies

Cyfranwyr Misol

Y Golofn Grefyddol
Parch Lynn Evans
Tudalen y Fenter
Owain Siôn Gruffydd
Hwyl yn yr Ardd
Hywel Jones
Llecyn Llên
T.M. Thomas
Colofn Chwaraeon
David Dyer
Tudalen y Plant
Iona Llŷr
Croesair
Handel Jones (Agrestis)
Ffotograffydd
Gareth Vaughan Jones
Prif Ddosbarthwyr
Gwenlais Price
☎ (01550) 720114
Glyn a Rowena Davies
☎ (01558) 823340
Rhian Morgan
☎ (01550) 777107

DIOLCH AM GEFNOGAETH

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

☎ (029) 2087 8000

DYDDIAD CAU

Rhaid i ddeunydd *Lloffwr* Mai
fod yn nwylo'r Uwch Olygydd erbyn 20 Ebrill
RHAID I'R CYFRANIADAU FOD YN GYMRAEG
Croesewir cyfraniadau ar e-bost os yw hynny'n bosibl

yloffwr@papurbro.org


Nid yw'r *Lloffwr* o reidwydd yn cytuno â'r fam a adlewyrchir ym mhob un o erthyglau'r papur

~ TUDALEN Y PLANT ~


Annwyl Fêts,

Bwnis, bwnis a mwy o fwnis sydd ar y dudalen yr wythnos hon. Gobeithio eich bod chi'n eu hoffi nhw. Dyma fy ffrindiau o'r ardd. Mae nhw allan i ddathlu'r Pasg.


Hwyl am y tro,



COPIWCH Y LLUN



BETH YW HWN?



Llongyfarchiadau i enillydd mis Mawrth, sef:
CATRIN PETERS, Ardwyn, Cwmifor, Llandeilo, SA19 7AW
BYDD GWOBR Y MIS HWN ETO I'R UN GORAU
Anfonwch eich cynigion i: Y Gilfach, Heol Latimer, Llandeilo
erbyn 20 Ebrill 2006



~ HWYL YN YR ARDD ~

DATHLU'R PASG YN YR ARDD

Gan fod y Pasg yn agosáu daliwn ar gyfle i roi ychydig sylw i'r hyn y gellir ei wneud er mwyn creu arddangosiad yn yr ardd neu ar batïo sy'n berthnasol i'r Wyl. Gellir creu arddangosfa enfawr neu gall fod ond trefniant bach cryno mewn border, neu ar batïo.

Dylid ystyried sawl agwedd:

Roedd tair croes ar fryn Calfaria, ynghyd â llecyn yn dal clwstwr o flodau wrth ochr y bedd gwag i ddynodi buddugoliaeth Crist dros farwolaeth. Gellir gwneud hyn drwy gynllunio'n ofalus a defnyddio planhigyn a blodau sydd mewn bri yr adeg yma o'r flwyddyn. Er mwyn nodi llymder Dydd Gwener y Groglith, y planhigyn mwyaf addas fyddai'r ywen, gan ei fod yn arwyddo galar. Mae'r ywen yn hen bren ac i'w gweld mewn amryw o fynwentydd hynafol yng Nghymru yn cynnwys mynwent Abaty Ystrad Fflur. Ym mynwent Eglwys y plwyf Talylychau, mae yna hen ywen, yn ôl traddodiad, yn cysgodi bedd y bardd Dafydd ap Gwilym. Mesur hon tua 7 mydr o daldra. Yn ôl hanes, r'oedd y pren yma yn tyfu ymhell cyn marwolaeth Dafydd yn 1380, oherwydd mewn ffug farwnad gan Gruffydd Gryg, mae yn dweud fod Dafydd wedi dymuno cael ei gladdu o dan ywen. Mae yna Garol y Pasg yn sôn am wragedd, wrth chwilio am Grist, yn gweld cysgod ohono o dan bren ywen.

Cysylltir y pren boblys (*populus fastigiata*) a'r aethnen (aspen) (*populus tremuloides*) â'r Groes, gan fod hanes yn dweud mai dyna'r pren a ddefnyddiwyd i wneud y Groes. Yn ôl chwedl, mae yna ryw fath o gryndod yddynt, fel arwydd efallai, o gywilydd. Gellir defnyddio celyn a mieri i wneud y Goron ddain.

Gellir defnyddio pulmonaria neu lungwort, oherwydd yn ôl chwedl roedd hwn yn tyfu wrth droed y Groes, a'r blotiau sydd i'w weld ar y dail yw diferion chwys Crist yn ei ddioddefaint yn disgyn arnynt. Gellir defnyddio briallu, "Easter Rose" gan ychwanegu ychydig o "primulas" o liw coch, fel arwydd o waed Crist. Dylid defnyddio Cennin Pedr, gan fod mytholeg y Groegwyr yn mynnu fod hwn yn flodyn sanctaidd i'r meirw, hefyd ym mharadwys "pre Hellenic," a enwir yn "*Elysium Fields*," roeddent yn ffurfio carped euraidd. Gellir gweld mynwentydd gyda'r un olygfa ar Sul y Blodau. Mae rhai Cristnogion yn galw'r Genhinen Pedr yn "*Lili'r Garawys*" neu "*Lili'r Pasg*". Gyda ni y Cymry, mae hwn yn flodyn parchus, i'w wisgo gyda balchder ar achlysuron arbennig i ni y Cymry, fel Dydd Gŵyl Dewi, neu ar ddiwrnod gêm Rygbi Rhyngwladol. Dewis rhagorol fyddai'r rhai bychain ee "Jack Snipe" a "Little Witch". Dylid cynnwys y lili "arum lily" neu lili'r fynwent, dywed chwedl arall fod hon yn tyfu yn ngardd Gethsemane yn y fan ble'r aeth Crist ar ei luniau i weddio. Gelwir "*Lili'r Dyffrynnoedd*" gan rai Cristnogion yn "*Mary's Tears*", golyga hyn naill ai dagrau o alar am ei Mab yn marw ar y Groes, neu ddagrau o lawenydd o'i Atgyfodiad. Yn ôl Cristnogion cynnar, mae eu harogl yn rhoi ysbrydoliaeth a gweledigaeth i ddyn o fyd gwell. Blodyn mwyaf ecsotig y Gwanwyn yw "Blodyn y Pasg" "Pasque Flower" *pulsatilla vulgaris*, sy'n perthyn i'r teulu "*anemone*". Yn ôl chwedl roedd yn tyfu ar ochr bedd Crist, felly yn dyst i'r Atgyfodiad.

Dylid plannu ychydig lysiau ee llwynbae, gan ei fod, yn aml, ar yr allor, amser y Nadolig fel addurn, ond yn fwy priodol fel addurn Pasg, gan fod yn arwydd o Fuddugoliaeth. Dylid plannu ychydig o rosmari, oherwydd, yn ôl traddodiad, nid yw yn tyfu mwy na 33 o flynyddoedd, oedran Crist yn

marw. Mae'n ddelfrydol i'w ddefnyddio i ychwnaegu blas ar gig oen cynta'r tymor adeg y Pasg. Dylid plannu "Speedwell Veronica," Rhyddlwyn Feronica. Ystyr yr enw Feronica yw "*oerum ikon*" - gwir ddelwedd.

Yn ôl yr hanes y Santes Feronica oedd y wraig a sychodd y chwys o wyneb Crist gyda hances, pan oedd yn cario'i groes. Yn ddamweiniol disgynnodd yr hances ar glwmp o'r Rhyddlwyn Feronica. Pan aeth i'w godi sylwodd fod llun (image) o wyneb Crist arno. Syniad fyddai gosod coblyn o'r Robin Goch yn agos i'r goeden boblys am y dywed chwedl fod i'r robin gael ei fron goch wrth geisio symud y goron o ben Crist. I gloi'r arddangosfa beth am osod ychydig wyau artiffisial mewn nyth, er mwyn ychwanegu at naws y Pasg. Gan fod wyau yn siap hirgrwn golyga hyn "**heb ddechrau na diwedd**," symbol o dragwyddoldeb. Mae ŵy hefyd yn symbol o enedigaeth ac ail enedigaeth dyn, ble mae Crist wedi addo iachadwriaeth i'w holl ddilynwyr.

Dyledus wyf i Roy Davies, un o Feirdd y Talwrn am ei bennill i'r Pasg:

Pan ddaw y Pasg rhaid cofio
Y boen a'r ymofidio
Fu 'Ngethsemane lle bu'r Crist
Yn athrist yn gweddio.



Gardd Gethsemane

Pasg dedwydd a llwyddiant mawr i ddarllenwyr a garddwyr Y Lloffwr.

Hywel Jones

A & B PLANT HIRE & TOOL HIRE

Bryndolau, Ffarmers
Llanwrda
☎ (01558) 650536
Ffacs: (01558) 650516



hefyd yn -
The Old Slaughterhouse
Heol Llanfair, Llambod
☎ (01570) 422522
Ffacs: (01570) 421453

Cysylltwch â'ch asiant lleol am
HURIO ~ GWERTHU ~ GWASANAETH ~ RHANNAU ~ ATGYWEIEIO
AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

ADEILAD CLADDINGS

(EIRIAN DAVIES)

Y Stordy, Heol yr Orsaf, Llanwrda

☎ (01550) 777497

Zinc sheets a steel girders, arbenigwyr mewn toeon crwn

MENTER GYMUNEDOL Y DROVERS

Mae'n debyg fod tafarn y **Drovers' Arms** yn **Ffarmers** yn dyddio 'nôl i'r ddeunawfed ganrif, ac i'r dafarn ddatblygu i gwrdd â'r galw am lety i'r porthmyn wrth iddynt yrrustoc o ganolbarth Sir Aberteifi i farchnadoedd mawr Lloegr. 'Roedd yna dafarn arall gyferbyn â'r Drovers ar sgwar y pentref, sef y **Farmers' Arms** ac mae'n debyg mai o hwn y daeth enw'r pentref. Mae'n amlwg bod Ffarmers yn ganolfan bwysig i'r porthmyn gan fod tri gofaint yn y pentref yn y cyfnod hwn.

Mae hen ffordd Rufeinig "Sarn Helen" yn mynd drwy'r pentref, ac mae'n debyg fod mynachod yn teithio ar hyd y ffordd yma wrth ymweld ag Abaty Talylychau ac Ystrad Fflur. Ceir enwau lleol sydd yn awgrymu cysylltiad felly megis Wernfendigaid, Henllan, Cae Llwyn Du Abad, Cae'r Mynach ac Esgair Crwys. Ceir cofnod hefyd fod Melin Bannu yn agos i Felinrhos gerllaw y pentref ar lan yr afon Twrch. Dywedir bod Dafydd ap Llywelyn ap Gruffydd Fychan wedi derbyn caniatâd ar Wyl Mihangel 1427 i godi Melin Bannu ar safle a adwaenir fel Kevynways. Codwyd y Felin, ac 'roedd tâl am y brydles yn dal i gael ei gasglu ym 1486 a 1515. Go brin fod yna dafarn yn Ffarmers yn y cyfnod hwnnw.




Mae yna hefyd gysylltiad rhwng y Drovers ag addysg yn yr ardal. Codwyd yr ysgol bresennol ym 1877, ond mae yna sôn fod ysgol yn cael ei chynnal ar lofft y Drovers cyn hyn. Yn wir, yn ôl cyfrifiad 1851, 'roedd ysgolfeistr o'r enw Henry Rookes - a oedd yn enedigol o Wlad yr Haf - yn byw yn Felinrhos. Mae'r cyfrifiad hefyd yn cadarnhau bod nifer o blant a phobl ifanc yr ardal yn cael eu rhestru fel ysgolorion (*scholars*).

Gellir gweld felly bod trigolion Ffarmers wedi croesawu

ymwelwyr ar hyd y canrifoedd, a phan fu bron i'r Drovers gau ym 1996, 'roedd yna deimlad cryf y dylid mynd ati i achub y sefydliad. Hyn a ysgogodd criw o drigolion lleol i ffurfio Menter Gymunedol i brynu'r Drovers. Ers hynny, mae gwaith atgyweirio, uwchraddio ac ehangu wedi ei gyflawni gan sicrhau tafarn a bwyty safonol i drigolion lleol, yn ogystal â'r llu ymwelwyr a geir i'r ardal. Mae ymdrechion y Fenter wedi creu gwaith yn yr ardal gyda theulu yn ennill bywoliaeth o'r dafarn a'r bwyty, yn ogystal â chreu swyddi i staff rhan-amser. Mae'n debyg bod y Fenter wedi dod â llawer mwy o fanteision na'r hyn a ddychmygwyd pan fentruwyd arni ym 1996.

LLYFR EFENGYL SANT TEILO: GARTREF O'R DIWEDD



Cristnogol a braf yw croesawu copi ohono gartref ar ôl deg canrif i ffwrdd.

Prosiect ar y cyd rhwng y gymuned yn Llandeilo Fawr, a Deon Eglwys Gadeiriol Caerlwytgoed (Lichfield), ynghyd â'r Llyfrgell Brydeinig oedd creu copi electronig. Mae'r llyfryn electronig wedi'i orffen ac erbyn hyn ar gael i'w weld yn nhŵr Eglwys Sant Teilo, Llandeilo.

Disgwyli'r bydd y ddogfen yn denu ymwelwyr i'r ardal gan weithredu fel ffynhonnell a fydd yn cryfhau twristiaeth yn Nyffryn Tywi.

Mae'r prosiect wedi cael cymorth grant ariannol Ewropeaidd gwerth £75,000 o'r 1Gronfa sydd yn cael ei redeg gan Gyngor Sir Gaerfyrddin gyda chymorth gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cafwyd cyfraniadau hael o tua £35,000 gan y Llyfrgell Brydeinig ac Eglwys Gadeiriol Caerlwytgoed. Ynghyd â hyn,

Mae copi electronig o'r e s i a m p l cyntaf o G y m r a e g ysgrifenedig wedi dod yn ôl i'w wreiddiau yma yn Llandeilo.

Mae Llyfr Efenfylau Sant Teilo yn llyfryn hardd o waith

cafwyd cefnogaeth gref a chymorth ymarferol i'r prosiect gan swyddogion Menter Bro Dinefwr.

Fe ddywedodd y Parchedig Ddr. Peter Bement: "Wrth sicrhau y grant yma rydym wedi llwyddo i symud y prosiect ymlaen. Mae'n braf i wybod bod y llyfryn wedi dod yn ôl i ni yma. Mae wedi bod yn waith caled, diddorol, a llwyddiannus, gyda chefnogaeth gref gan y gymuned."

Am tua 250 o flynyddoedd, ar ddechrau'r nawfed ganrif, roedd y llyfryn ym meddiant y gymuned grefyddol yn Sant Teilo. Mae'r ddogfen yn cofnodi digwyddiadau yn y gymuned ac yn wir mae'n esiampl o'r Gymraeg ysgrifenedig cynharaf.

Drwy ddefnyddio technoleg newydd gall pobl ddarllen ac astudio'r llyfryn newydd, gan droi tudalennau fel llyfryn arferol. Ynghyd â'r llyfr, ceir byrddau sy'n olrhain hanes y llyfryn a'i b w y s i g r w y d d hanesyddol.

Cafwyd cefnogaeth gan y Cynghorydd Clive Scourfield, "Mae hwn yn brosiect cyffrous a diddorol fydd yn dod â rhan bwysig o hanes Cymru adref. Bydd heb os yn gwella twristiaeth yn Nyffryn Tywi."

(Gweler gopi o dudalen o'r Llyfr gwreiddiol)



CAIO

Brunant Arms

Mae Sam a David, Brunant Arms, Caio wedi bod yn trefnu nosweithiau cerddorol yn ddiweddar ar nosweithiau Sadwrn, a hefyd noson gwis bob nos Iau.

Dawnsio Balet

Bu Manon Johnson, 3 Rock Street, yn dawnsio balet yn Theatr Felinfach ym mis Chwefror. Dal ati!

Plwyf Cynwyl Caio – Apêl Eisteddfod yr Urdd 2007

Cynhaliwyd Cyngerdd yn Neuadd y Conoriaid, Pumsaint ar 3 Chwefror er mwyn codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2007. Bu'r noson yn un llwyddiannus dros ben gydag eitemau gan Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen, Ysgol Gynradd Caio, CFFI Dyffryn Cothi, Strabs y Cwm a hefyd Gangen Dyffryn Cothi o'r Urdd. Diolch yn ogystal i Rhys Davies a Lyn Richards am arwain y noson. Bu hefyd arwerthiant gyda nwyddau wedi eu rhoi gan fusnesau lleol. Roedd Sefydliad y Merched a Merched y Wawr lleol yn gyfrifol am y stondin gacennau. Bu'r noson yn un hwylus dros ben a'r plwyf yn codi dros y targed. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu ynghlwm â'r noson ac i'r rhai a gymerodd ran, cyfrannu neu brynu eitemau neu helpu mewn unrhyw fodd. Diolch yn ogystal i Ina Morgan am ei chefnogaeth ariannol er nad oedd yn medru bod yn bresennol oherwydd afiechyd a diolch hefyd i bawb arall a wnaeth gyfrannu'n ariannol tuag at y fenter.

Diolch yn ogystal i Lowri a Banc Barclays am gefnogi'r noson gyda chynllun £ am £.

CWM-DU

Cawl a Chân

Cafwyd noson arbennig o hwylus o Gawl a Chân yn Nhafarn Cwm-du i ddathlu Gwyl Ddewi nos Fercher, 8 Mawrth. Paratowyd y cawl i bawb gan Catrin James, Judy James a Janet Corcoran a phicau ar y maen i ddilyn cyn cael ein diddori gan dalentau lleol.

Croesawyd y gynulleidfa gan Phillip James ar ran Cymdeithas Cwm-du ac ar ôl canu rhai caneuon Cymraeg poblogaidd gyda'n gilydd cawsom wledd o adloniant gan y bobl ifanc. Pleser oedd croesawu Ffion a Heledd Thomas gyda'i mam Gillian yn cyfeilio, i agor y noson gyda thair eitem – deuawd hyfryd, unawd ar y basŵn gan Ffion a deuawd gan y ddwy chwaer.

Darllenwyd darn o atgofion person adnabyddus o'r ardal gan Janet James a chafwyd datganiad o alawon gwerin gan Catrin James. Chwaraeodd Jack Amblin unawd ar y trwmped, yna mwynhaodd y gynulleidfa ddeuawd Cerdd Dant gan Ffion a Heledd ac unawd ar y recorder gan Heledd.

Darllenodd merched ifanc y pentref gerdd am Ddewi Sant ac yna cafwyd unawd Alaw Werin gan Ffion, datganiad o 'Y Gwanwyn' gan Heledd ac Unawd Cerdd Dant gan Ffion. Cafwyd datganiad o alawon gwerin gan Catrin ac yna ddarn o farddoniaeth gan Ffion a deuawd i gloi gan Ffion a Heledd.

Mwynhaodd pawb noson hapus a hwylus a braint oedd cael bod yng nghwmni talentau ifainc yr ardal a gwrando ar eu doniau. Dymunwn yn dda iawn iddynt. Diolchwyd yn gynnes iawn i bawb am eu cyfraniad gwerthfawr gan Phillip James.

NEW ROAD GARAGE

☎(01550) 720836

Gwerthir petrol a diesel yma
Wedi Torri Lawr? Ffoniwch Ni!
Unrhyw amser o'r dydd neu'r nos

Pob math o wasanaeth moduron a
gwaith atgyweirio ffrâm

Cwm-du ar 'Wedi 3'

Mewn cyfres yn portreadu tafarn dai diddorol Cymru cafwyd portread o dafarn Cwm-du. Braf oedd gweld Hywel Jones, John Thomas a Ron Jenkins yn sôn am hynod rwydd y dafarn hynafol ac am weithgaredd aelodau Cymdeithas Cwm-du i sicrhau llwyddiant y siop, swyddfa'r post, y dafarn a'r bwyty. Diddorol oedd clywed am yr holl gymdeithasau sy'n cyfarfod yno, megis y clwb buddsoddi, y clwb clasurol, y noson werin a'r dosbarth Cymraeg.

Apêl yr Urdd

Cyfran Cwm-du a Thalylylchau at apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2007 yw £1000 a gwahoddir cyfraniadau gan unigolion neu grwpiau. Cysyllter â Jane Morgan ar 01558 685737 am y manylion. Edrychwn ymlaen at Eisteddfod lwyddiannus mor agos i gartref y flwyddyn nesaf.



Gweler uchod lun a dynwyd o bentref Cwm-du ar fore Dydd Gŵyl Ddewi 2006 wedi noswaith o eira.

FFAIRFACH

Capel Tabernacl

Ar nos Lun 20 Chwefror cawsom noson i'w chofio yng nghwmni Donald Treharne o Bontarddulais. Siaradodd am ei ddiddordeb mewn hen lestri yn enwedig llestri Llanelli, ac yn sgîl hynny cawsom lawer o hanes yr ardal. Diolchwyd iddo am noson wych gan Mary Roberts.

Ar nos Lun 6 Mawrth daeth ein tymor swyddogol i ben gyda chinio i ddathlu Dewi Sant. Y Bonwr Peter Hughes Griffiths oedd y gŵr gwadd, ac fel y gallwch ddychmygu cawsom noson hwyliog a diddorol. Diolchwyd iddo am ddod atom gan Bob Roberts.

Braf oedd cael ymweld â'r cyfeillion yng Nghapel Als, Llanelli eleni eto a hynny ar 8 Mawrth. Cawsom noson o Gawl a Chân i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Chwiorydd Capel Als fu wrthi'n brysur yn paratoi'r cawl ac yna cawsom ein diddori gan fyfyrwyr Coleg Sir Gâr (Graig). Da oedd cael cwmni bobl ifanc, dawnus yn canu a chwarae offerynnau.

Cynhaliwyd Cwrdd Chwiorydd Byd-Eang yn y Tabernacl ar brynhawn Gwener 3 Mawrth. Braf oedd croesawu aelodau o Gapel Newydd Salem, Yr Eglwys, Y Bedyddwyr, y Neuadd Goffa a'r Eglwys Gatholig atom. Cymerwyd rhan gan gynrychiolwyr o bob enwad. Y Thema oedd 'Arwyddion yr Amserau' a baratowyd gan wragedd De Affrica. Mary Roberts ac Anne Roberts oedd yn gyfrifol am yr anerchiad eleni. Diolch i bawb am Oedfa raenus a bendithiol.

SIOP Y PENTAN

Y dewis gorau o lyfrau
casetiau a chardiau Cymraeg

Y FARCHNAD NEWYDD
CAERFYRDDIN

☎(01267) 235044

~ MENTER BRO DINEFWR ~

Cynllun 'Y Ffordd Ymlaen'

Bu swyddogion y Fenter yn brysur iawn yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn yn cydweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal ar gynllun peilot newydd sbon 'Y Ffordd Ymlaen' a ariennir drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Nod y cynllun yw annog rhieni plant blynyddoedd 4, 5 a 6 sydd wedi mynychu ysgolion cynradd Categori A i barhau i astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg wrth drosglwyddo i'r uwchradd.

Cynhaliwyd pump cyflwyniad mewn gwahanol leoliadau a daeth cyfanswm o bron i 200 o rieni i'r nosweithiau. Paratowyd yr adnoddau gan Alun Charles ac Elin Meek gan ddatblygu ar waith a luniwyd gan Edwyn Williams flwyddyn neu ddwy yn ôl. Gwnaethpwyd cyflwyniadau graenus ar ffurf *Powerpoint* gan Elaine Davies a Polly Lauchlan a oedd yn cynnwys clipiau fideo perthnasol hefyd. Fel rhan o'r cyflwyniadau amlinellwyd y manteision o fod yn rhugl ddwyieithog, yn cynnwys manteision swyddi, manteision addysgol a chyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol.

Yn ogystal â hyn aethpwyd ymlaen i gyfeirio at bryderon rhai rhieni yn y gobaith o'u lleddfu. Cyfeiriwyd at bryderon teuluoedd heb Gymraeg ar y aelwyd, pryderon yn ymwneud â diffyg adnoddau Cymraeg, a phryderon yn ymwneud â gwaith cartref ymysg pethau eraill. Cafwyd trafodaethau adeiladol iawn ar nifer o bwyntiau a bu'r nosweithiau i gyd yn rhai cadarnhaol iawn. Fel rhan o'r mwyafrif o nosweithiau, cynhaliwyd sesiynnau i'r plant yn cynnwys adloniant gan Rosfa'r consuriwr, gyda nifer dda o blant yn ymuno yn yr hwyl fel y gwelir yn y llun isod a'r rhieni'n mwynhau'r cyflwyniadau ar y gwaelod.



Os hoffech ragor o fanylion am y cynllun neu gopi o'r daflen sydd wedi cael ei pharatoi, cysylltwch â swyddfa'r Fenter ar (01558) 825336. Diolch i'r holl ysgolion lleol ac i bawb arall a gefnogodd y cynllun ac edrychwn ymlaen i'w ddatblygu ymhellach yn ystod y blynyddoedd nesaf.



Diwrnod Gweledigaeth Pumsaint

Cynhaliwyd diwrnod gweledigaeth llwyddiannus iawn yn Neuadd y Conoriad, Pumsaint ar 25 Chwefror, pan gafodd y cyhoedd gyfle i roi eu barn ar ddyfodol yr ardal. Pwrpas y diwrnod oedd i drigolion dyffryn Cothi ateb cwestiynau ar eu hardal ar bynciau megis addysg, adfywio, diogelwch, iechyd a lles. Yn ogystal â hyn roedd nifer o fudiadau lleol yn bresennol gyda stondinau, ac roedd adran grantiau Cyngor Sir Caerfyrddin yno hefyd i roi unrhyw gyngor ar ffynonellau arian ar gyfer grwpiau cymunedol. Fe fynychodd dros 75 o bobl yn ystod y dydd ac roedd yn gyfle da i bobl gael cymdeithasu dros banded. Hoffem ddiolch i Merched y Wawr a Sefydliad y Merched am wneud y te a hefyd i'r sefydliadau lleol a ddaeth â stondin ar y diwrnod. Bydd adroddiad o gasgliadau'r diwrnod yn cael ei ysgrifennu a'i gyflwyno i'r gymuned yn y dyfodol agos. Cyd-drefnwyd y diwrnod gan brosiect Milltir Sgwâr a Menter Bro Dinefwr.



Grŵp yn trafod Neuadd Gymunedol Crug-y-bar

A hoffech wella eich Cymraeg neu ddyfnhau eich gwybodaeth am hanes a llên Cymru?

Rhai o'r dewisiadau : Cyfoethogi Iaith
Blas ar Gyfieithu
Gwerthfawrogi Llenyddiaeth
Arthur y Cymry
Y Derwyddon
Gwyddeleg i Ddechreuwyr

I ddathlu 250 o flynyddoedd ers genedigaeth
yr Esgob Burgess mae Adran y Gymraeg,
Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan yn cynnig cyrsiau blasu.
Gellwch astudio hyd at 40 credyd

yn rhad ac am ddim!



Mae'r cyrsiau ar
gael i'w hastudio
ar y we,
yn eich amser
hamdden

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
Melanie Jones
ar 01570 424861 neu 424754
e-bost melanie.jones@lamp.ac.uk





~ COLOFN Y MERCHED ~

Mae'r golofn hon yn gyfle i un o ferched bro Dinefwr ddweud ei dweud bod mis. Bydd rhywun gwahanol yn cyfrannu ym mhob rhifyn o'r **Lloffwr**, yn sôn am rywbeth mae hi am fwrw ei bol yn ei gylch, neu ei rannu â chi. Y mis hwn, tro **Sharon Daniels**, Bro Muallt, Brechfa yw hi.

Er mai ym mhentref Brechfa yr wyf yn byw ar hyn o bryd, un o blant Horeb ydwyf a dweud y gwir; y llecyn bach hwnnw sydd ag ond ychydig o dai a Chapel yr Annibynwyr, rhyw hanner ffordd rhwng Felingwm Uchaf a Brechfa.

Canolbwynt Horeb yw'r Capel lle y mae llygad barcud ein parchus weinidog y Parch Emyr Lyn Evans yn goruchwyllo drosom. Y mae mwy o seddi gwag yn Horeb heddiw nag y dymunem iddynt fod - yn wir yr un yw'r stori yn y mwyafrif o addoldai gwaetha'r modd. Yr wyf wedi bod yn un o organyddion y Capel am dros ugain mlynedd, gorchwyl sydd yn rhoi llawer o bleser i mi a chan ein bod yn ffodus fod gennym bedair organyddes nid yw'r gofyn yn llethol. Yr wyf hefyd yn aelod o Gylch y Merched sydd yn cwrdd yn y festri yn fisol - criw bach ohonom sydd yn mwynhau cwmni ein gilydd mewn amryw o ffyrdd.

Cefais fy addysg yn Ysgol Brechfa o dan ddylanwad Mrs Enid Jones o Landeilo, yr addfwynaf a'r anwylyf o athrawon Cymru 'rwy'n siwr, a Mr Beynon Phillips fel prifathro - person sydd gen i edmygedd mawr ohono heddiw am iddo ddysgu i ni blant y gwerthoedd sydd ar goll gan gymaint heddiw. Clywir yn feunyddiol am y "three R's" - ond y tair "D" oedd yn flaenllaw gan Mr Phillips - disgyblaeth, disgyblaeth a disgyblaeth. Diolch iddo am hynny - sylfaen go dda i bob unigolyn 'ddwedwn i. Treuliais gyfnod yn Ysgol Ramadeg y Merched yng Nghaerfyrddin ac roeddwn yn un o'r criw cyntaf i fynychu Ysgol Gyfun Bro Myrddin pan yr agorwyd hi.

I Bibwrlwyd yr ês i wedyn i ehangu fy niddordeb ac fe fues yn ffodus i gael swydd yn swyddfa'r Weinyddiaeth Amaeth yn y dref ac yno yr wyf hyd heddiw - er mai Swyddfa'r Cynulliad Cenedlaethol yw hi bellach a minnau wedi derbyn sawl her drwy ddringo sawl gris i fyny'r ysgol. Bûm yn gweithio yng Nghaerdydd yn ystod cyfnod y clwy traed a'r genau - tymor rhyfedd iawn, gyda'r oriau gwaith yn aruthrol o hir a minnau yn y swyddfa ganolog o amgylch y bwrdd mawr crwn ymhlith mawrogiion Amaeth, y Lluoedd Arfog a'r Cyfryngau.

Peth pwysig, mi gredaf, yw cael diddordebau sydd yn hollol wahanol i'r hyn a wneir o ddydd i ddydd. Sylweddolais pan yn Ysgol Brechfa, pan oeddwn yn cael fy nysgu i wneud gwaith crocio, fod gen i diddordeb yn y maes yma, a phan ddaeth y cyfle, ymunais yn y dosbarthiadau nos yn Ysgol Nantgaredig. Ar y pryd, yr oedd amryw o bynciau y gellid dewis ohonynt ac fe ddysgais lawer drwy fynychu'r dosbarthiadau gwaith llaw cyn i mi fynd ymlaen i ehangu ymhellach yng Nghaerfyrddin. Ryw dair mlynedd yn ôl cychwynnais ddosbarth fy hun yn Horeb gyda'r bwriad o roi cyfle i wragedd yr ardal, gyda'r un diddordeb, i ddod at ei gilydd i gymdeithasu drwy gwblhau amrywiaeth o brosiectau. Da yw medru dweud fod y weledigaeth yn llwyddiant ac y mae'r dosbarth eisioes wedi cynnal arddangosfa o'r gwaith gyda dros gant o eitemau mewn croesbwyth, tapestri, brodwaith, gwaith sequin a chrosio yn cael eu harddangos.

Caf lawer o bleser yn gwneud cardiau cyfarch fy hun ynghyd ag anrhegion ac addurniadau Nadolig ar gyfer eu gwerthu mewn Ffeiriau Crefft. Y mae'r gwaith yma, a'r gwaith comisiwn sydd bellach wedi ehangu, yn fodd delfrydol i ymlacio.

Ers yn blentyn yr wyf wedi bod yn hoff o gasglu gwahanol bethau. Cychwynnais gasglu sgidiau pan y cefais ddwy esgid tseina yn anrhegion un Nadolig a bellach y mae'r rhif wedi croesi dau gant, a rheiny o bob maint ac o bob gwneuthuriad, ac y mae'r cyfle yn dod o dro i dro i mi eu harddangos i wahanol fudiadau.

Y mae fy ngwaith fel Ynad Heddwch ar y Fainc yng Nghaerfyrddin yn ddiddorol ac yn bwysig i mi. Profiad sydd ar adegau wedi fy synnu a'm tristau yw hyn, a gresyn nad oes yna fwy o bwyslais wedi ei roi ar ddisgyblaeth a pharch mewn amryw o ysgolion a chartrefi.

Yn dilyn rhai blynyddoedd o fod ar Fwrdd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Brechfa, 'rwyf newydd ddechrau ar gyfnod fel Cadeirydd y Llywodraethwyr. Her newydd ar adeg pan mae dyfodol ein hysgolion bach yn ansicr ac yn creu gofid i gymaint ohonom.

CONVIVIUM SLOW FOOD SIR GAR

Beth yw Cittaslow?

Eisoes mae gan Llandeilo yr hanfodion elfennol i fod yn Sitta Slow, sef ei safle fel tref farchnad mewn ardal amaethyddol, treftadaeth hanesyddol, amgylchedd braf, a chynnyrch bwyd lleol o safon.

Beth yw Bwyd Araf?

Sefydlwyd Slow Food neu 'Bwyd Araf' gan Carlo Petrini yn yr Eidal yn 1986. Safiad un dyn ydoedd i ddechrau, yn erbyn yr effaith roedd 'fast food' yn ei gael ar ddiwylliant bwyd a'r ffordd o fyw yn yr Eidal.

Oddi ar hynny, lledaenodd y neges i bedwar ban byd ac erbyn heddiw mae gan y mudiad 83,000 o aelodau.

Bwriad Slow Food yw gwrthwynebu unfurfiaeth y diwydiant bwyd a diogelu traddodiadau a chelfyddyd bwyd cynhenid drwy ddathlu y gwahaniaethau bwyd sydd ar gael ar draws y byd, diogelu cynnyrch artisan, bio-amrywiaeth a bridiau prin, hyrwyddo sustemau amaeth cynladwy, ymgyrchu dros addysg bwyd a dathlu a gwerthfawrogi bwyd da.

Bwyd Araf yn Sir Gâr

Lawnsiwyd Slow Food yn Sir Gâr yn 2004 fel ymgais i hyrwyddo ymwybyddiaeth am ein diwylliant bwyd lleol, a thrwy hynny ei ddiogelu yn erbyn unfurfiaeth globaleiddo. Ers iddo gychwyn mae'r mudiad wedi cynyddu aelodaeth ac yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau o fewn y sir.

Bwriad *Convivium Slow Food Sir Gâr* yw hyrwyddo Llandeilo fel *Citta Slow* neu 'Dinas Araf' cyntaf Cymru. Mae tref farchnad Llwydlo eisoes wedi ennill y statws yma ac wedi llwyddo i ddenu miloedd o ymwelwyr i'r ardal yn sgîl ei diwylliant bwyd hyfyw a bywiog.

Ceir mwy o wybodaeth am Citta Slow Food drwy gysylltu â:
Margaret Rees 01558 669116 / 07814 024972 neu Gaynor Jones 07854 171165



NATIONAL CO-OPERATIVE CHEMIST
Fferyllfa Gymunedol Leol

(01558) 823229

Ystod gynhwysfawr eang o nwyddau a chynnyrch i wneud bywyd yn hawdd ac yn hapusch i'r oeddrannus a'r anabl



CARPEDI PUMSAINT

Gwasanaeth gosod carpedi hen, ail-osod neu newydd
Ffoniwch Alun
(01558) 650364
neu 07977 121201

AXMINSTERS, WILTON,
TWISTS, GWLAN, CORDS,
CUSHIONFLOOR,
UNDERLAYS

"Carpedi i Siwtio Pawb"

Gellir trefnu ymweliad â'r cartref gyda samplau.



FFALDYBRENIN



Diolch

Dymuna Sian Watkins, 2 Caedabowen, Llanybydder, sef wyres John a Menna Williams, Rhosybedw, ddiolch o galon i'w ffrindiau a'i pherthnasau yn ardal *Y Lloffwr* am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

FFARMERS



Hanes yr Ardal

Bydd Neuadd Bro Fana yn dathlu ei phen-blwydd yn 75 oed eleni, ac i nodi'r achlysur hanesyddol yma mae'n fwriad gan Gyngor y Neuadd i gyhoeddi llyfr ar hanes yr ardal - yr ardal y cyfeirir ati yng ngweithred wreiddiol y Neuadd fel *the hamlet of Cwm Twrch*.

Mae'r ardal yma yn cynnwys rhan ogleddol plwyf Cynwyl Gaeo ynghyd â phlwyf Llanycrwys. Mae nifer o wirfoddolwyr wrthi'n barod yn crynhoi deunydd ar gyfer y llyfr a fydd yn rhoi hanes y neuadd, yr eglwys a'r capeli, yr ysgolion, y sioe, y mabolgampau a'r mudiadau gwirfoddol. Bydd cyfle, hefyd, i drigolion yr ardal yn ogystal â'r rhai hynny sydd a chysylltiad â'r fro, gyfrannu deunydd i'r llyfr ar ffurf 'atgofion'. Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfrannu, neu os oes gennych hen luniau o ddiddordeb lleol, cysylltwch ag unrhyw un o aelodau Cyngor y Neuadd. Mae angen yn arbennig wybodaeth am hen ysgol Cwm Twrch a gaewyd yn y 50au, a Chapel Esgair Las a gaewyd tua'r un adeg. Bydd unrhyw wybodaeth o gymorth mawr wrth baratoi'r hanes.

Neuadd Bro Fana

Oherwydd yr eira ar ddechrau mis Mawrth, bu'n rhaid gohirio ymweliad Cwmni Drama Cudyll Coch, Llandeilo â Ffarmers. 'Roeddem yn edrych ymlaen i'w croesawu eleni eto ar ôl noson hwylus iawn yn eu cwmni llynedd. Yn ffodus, mae'r Cwmni wedi medru cynnig dyddiad newydd i ni, a byddant yn perfformio dwy ddrama - 'Harri'r Wythfed' a 'Gormod o Bwdin' - yn y Neuadd ar Nos Wener, 19 Mai am 8.00 o'r gloch. Llywydd y noson fydd Mrs Sue Hughes o Beniel, Caerfyrddin. Bu Mrs Hughes yn athrawes yn Ysgol Ffarmers am gyfnod yn yr 80au. Os oeddech wedi prynu tocynnau ar gyfer y dyddiad gwreiddiol, bydd y rhain yn dal yn ddilys. Os nad oes gennych docyn, cysylltwch ag un o aelodau Cyngor y Neuadd, neu anfonwch e-bost at neuaddbrofana@postmaster.co.uk.

Eisteddfod Gŵyl Ddewi

Cynhaliwyd Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Carreg Hirfaen ar 8 Mawrth yn y Neuadd. Bu'n rhaid gohirio'r Eisteddfod o'r dydd Mercher blaenorol oherwydd yr eira. Cafwyd cystadlu brwd drwy'r dydd. Y beirniaid eleni oedd Mr Dafydd Jones, Ffair-rhos (cerddoriaeth) a'r Parchedig Beti Morris (adrodd). Enillwyd y Gadair am farddoniaeth Gymraeg gan Marek Owen (cyfnod allweddol 1), gyda Delyth Mathias yn ennill yng nghyfnod allweddol 2. Sam Jacobs oedd yn fuddugol yng nghystadlaethau y Stori Saesneg. Bydd adroddiad o'r Eisteddfod a'r canlyniadau yn y rhifyn nesaf o'r Lloffwr.

SIOP Y CENNEN

Uned 4, Byd y Siopwr, Stryd y Gwynt, Rhydaman
am eich

LLYFRAU*CRYNODDISGLAU*CARDIAU
CREFFTAU*FIDEOS*C.D.ROMau*CASETIAU

Telerau arbennig i ysgolion a chymdeithasau

☎ (01269) 595777 📧 hywelwyn@aol.com

Diwrnod Gweledigaeth

Bu rhai o drigolion Ffarmers wrthi'n cynorthwyo gyda'r Diwrnod Gweledigaeth a drefnwyd ym Mhumsaint ar 25 Chwefror. Paratowyd arddangosfa yn disgrifio ychydig o fywyd y gymuned leol ynghyd â'r amrywiol weithgareddau ac atyniadau sydd i'w yn yr ardal.



Gweler lun o arddangosfa Pentref Ffarmers ar Ddiwrnod Gweledigaeth ym Mhumsaint

Penwythnos i'w Gofio

Mae un o drigolion yr ardal wedi cael profiad newydd yn ddiweddar drwy ymweld ag un o gemau Pencampwriaeth Rygbi y Chwech Gwlad. Bu Mrs Ray Davies, Peronne mor lwcus ag ennill dau docyn i weld Cymru yn chwarae'r Eidal yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd ar 11 Mawrth, ynghyd â threulio dwy noson yng Ngwesty'r Park Plaza yn y ddinas. Yn ôl pob sôn, cafodd amser bendigedig yng Nghaerdydd, a mwynhau'r gêm yn fawr.





3 Gardd Llydaw,
Lôn Jackson, Caerfyrddin
01267 231133
siop@t-hwnt.com
www.t-hwnt.com

Dewis eang o gardiau, cerddoriaeth a llyfrau
Crysau Cowbois, Celtes, Canys Rufus, Shwl-di-Mwl

Archebion a gwasanaeth post

GERAINT DAVIES

CONTRACTWR AMAETHYDDOL

Amrywiol beiriannau ar gael yn cynnwys
peiriant twrio ar draciau nwber 5 tunnell
Dumper 6 tunnell a Sanderson -
addas ar gyfer amrywiol dasgiau

☎ (01558) 685252



LLANARTHNE



Eglwys Llanarthne



Mae Eglwys Llanarthne sy'n olrhain yn ôl i'r drydedd ganrif ar ddeg yn ganolbwynt hanesyddol hardd i'r pentref. Gyda'r Parch Hywel Davies yn gweinidogaethu ym mhlwyfi Llanarthne a

Llanddarog, mae'n amlwg bod angen arian sylweddol ar hyn o bryd i ailosod yr eglwys yma mewn cas cadw da i'r dyfodol. Mae angen atgyweirio'r tŵr gan fod dŵr yn gollwng i brif gorff yr eglwys ac mae damprwydd yn y gangell – ac mae'r gost yma'n unig yng nghyffuniau £190,000. Y gobaith yw cael arian sylweddol o'r Gronfa Loteri Treftadaeth, grantiau eraill a llawer o weithgaredd codi arian yn lleol.

Cychwynnwyd ar y fenter gydag ymdrech lew i godi arian drwy gynnal cinio ac ocsiwn yn Nhafarn yr Hanner Ffordd, Nantgaredig ar 4 Mawrth. Bu'r noson yn llwyddiant aruthrol yn ariannol ac yn gymdeithasol. Cychwynnwyd gyda datganiadau cerddorol gan Mrs Ann Davies, Bremenda Uchaf gyda Rhiannon Jones, Penpal yn cyfeilio – cafwyd canu grymus cyn ac ar ôl y pryd bwyd rhagorol a weinyddwyd i'r parti mawr. Yn ystod y ginio, chwaraewyd 'Pen neu Gynffon' a chodwyd £197. Llywyddwyd yr ocsiwn gan Mr Dean Quick, Golwg y Tŵr, a chodwyd dros £1,000 drwy werthu'r anrhegion hardd a sylweddol a roddwyd i'r apêl. Gyda chyfraniadau hael fe wnaeth y noson gyfan godi dros £3,000. Ymlaen fo'r nod – rhaid dal ati.

LLANDEILO



Clwb Cinio

Roedd yn noson oer a diflas ond daeth criw da i swpera ac i wrando ar hanes bywyd a gwaith John Lewis, mab i fferm yn ardal Llanon, Llanelli. Ymadawodd â'r ysgol ac ymuno â'r Llynges Masnachol a'r preifat cyntaf i weld y byd. Wedyn aeth i weithio i gwmni rhyngwladol i chwilio am olew, aur, thus a myrr ac amryw fwynau o'r ddaear. Ac roedd digon ohono yn yr Affrica, Sudan, Sierra Leone a Congo. Roedd yn waith diddorol, caled ar brydiau, ac yn beryglus yn aml iawn. Roedd tlodi ofnadwy yno ond cyfoeth di-ben-draw yng nghrombil y ddaear. Dangoswyd sleidiau o'r bobl a'u bythynnod o fwd a gwellt yn cael eu herlid o'r wlad gan derfysgwyr yn saethu atynt wrth iddynt ddianc mewn cwch ar yr afon. Roedd yn noson ddiddorol dros ben ac yn agoriad llygad i weld a chlywed fel mae'r sefyllfa yn y rhan yma o'r byd. Roeddem i gyd yn gwerthfawrogi taw yng Nghymru yr ydym yn byw pan soniodd bod pris dŵr mor ddud ag olew. A chofiom am eiriau Gwynfor yn y 50au. Diolchwyd iddo gan Ceidrych Davies.



LLANGADOG



Clwb Gwawr



Ar nos Fawrth 7 Mawrth fe ddaeth criw bywiog a hwyliog ynghyd i'r Llew Coch yn Llangadog i sefydlu Clwb Gwawr yng nghwmni Glenys Thomas, Llywydd Cenedlaethol, a swyddogion lleol. Y mae croeso cynnes i chwi ymuno gyda hwy. Os am fwy o fanylion cysylltwch â Tegwen yn swyddfa Merched y Wawr ar 01970 611 661 neu cysylltwch gyda Melanie Jones, Nantshon.

Eisteddfod y Capeli

Daeth cynulleidfya gryo o wrandawyr i Capel Bethlehem, Dyffryn Ceidrych, ar nos Wener, 24 Chwefror, pan gynhaliwyd Eisteddfod Gŵyl Ddewi flynyddol eglwys i'r Annibynwyr yng nghylch Llangadog. Eisteddfod ar gyfer y plant yn bennaf oedd hon eleni eto. Yn ôl yr arfer, gwelwyd talentau amrywiol y plant a'r bobl ifainc wrth iddynt gystadlu'n frwd ac eiddgar am rai oriau. Y beirniaid eleni



oedd Ivoreen Williams (Adrodd a Llenyddiaeth), Jonathan Morgan (Cerddoriaeth) a Rhobert ap Steffan (Arlunio a Llawysgrifen). Dewiswyd Mrs Carolyn Jenkins, Caio, fel Cadeiryddes y noson ond yn anffodus oherwydd anffawd methodd â bod yn bresennol. Derbyniwyd anerchiad diddorol am adeg ei phlentyndod yng Nghapel Bethlehem a ddarllenwyd yn ei habsenoldeb gan y Gweinidog a chafwyd rhodd ariannol hael ganddi at gronfa'r Eisteddfod. Enillwyd y darian i blant o dan 12 oed gan Sara Morgan. (Gweler y llun uchod.)

Dyma weddill yr enillwyr:-

Unawd dan 5 oed – Dylan Thomas

Adrodd dan 5 oed – Dylan Thomas

Unawd 6 a 7 oed – Elen Fflur

Adrodd 6 a 7 oed – Elen Fflur

Unawd 8 a 9 oed – Jack Davies

Adrodd 8 a 9 oed – Jack Davies

Unawd 10 a 11 oed – Heledd Roberts

Adrodd 10 a 11 oed – Heledd Roberts

Adrodd 12 a 13 oed – Ffion Jones

Unawd 14 i 18 oed – Bethan Morgan

Adrodd 14 i 18 oed – Luned Henry

Offeryn Cerdd dan 12 oed – Anwen Griffiths

Offeryn Cerdd dros 12 oed – Sara Morgan

~ LLECYN LLÊN ~

MEISTRI'R GYNGHANEDD

Wrth i'r ugeinfed ganrif heneiddio, daeth yn amlwg fod yna ddatblygiadau newydd ym myd Barddoniaeth Gaeth. Gwelsom do o feirdd ifanc yn cyrraedd eu haeddfedrwydd, beirdd arbennig o ddawnus. Fel yn nyddiau ein beirdd cynnar, byddai'r beirdd ifanc hyn yn darllen eu cerddi o flaen cynulleidfya, boed hynny mewn neuadd neu mewn tafarn. Wedi'r cwbl, barddoniaeth i'r glust yw barddoniaeth mewn cynghanedd, un i'w hadrodd neu ei chanu'n gyhoeddus, sy'n golygu llunio gwaith sydd yn ddealladwy o'i glywed dim ond unwaith. Ar lawer ystyr yr oeddynt yn ein hatgoffa o farddoniaeth Cywyddwyr y bedwarydd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif, Oes Aur barddoniaeth Gymraeg. A dros y blynyddoedd diweddar, gwelsom y beirdd ifanc hyn yn ennill Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn dilyn ei gilydd. Cyhoeddwyd nifer o'u cerddi mewn cyfres o gyfrolau o dan yr enw *Cywyddau Cyhoeddus*.

Un o'r beirdd hyn yw Myrddin ap Dafydd, brodor o ardal Llanrwst, sy'n ennill ei fywoliaeth drwy gyhoeddi llyfrau Cymraeg a llyfrau am Gymru drwy y wasg a sefydlodd yn Llanrwst, Gwasg Carreg Gwalch. Y mae wedi cyhoeddi cyfrol o'i farddoniaeth ei hun, *Cadw Gŵyl*. Enillodd Gadair y Genedlaethol yn 1990 am Awdl ar y testun *Gwythiennau*, a'r eilwaith yn 2002 am un ar y testun *Llwybrau*.

Cymrwn ddarn o gywydd allan o'r Awdl *Gwythiennau*. Yma cawn lun o fachgen ifanc, dibrofiad, yn rhoi cynnig ar dorri perth â'i gryman, ac yn gwneud annibendod tost ohoni, ac yn gorfod galw am gymorth ei dad-cu, hen law ar y grefft, i geisio cymon i'r annibendod.

Wrth geisio cofio 'nhadcu
Ni welaf ond y gwaelu;
Lluniau bachgen o henoed,
Llun yr o benllanw oed;
Ei egni ef yn gwanhau
A'i wedd yn ddrych o'i ddyddiau.

Ond wrth drestan grymanu
A drwn o dân mewn draen du,
Dyheu am ei weld yn dod
Wnai hogyn dwylo swigod;
O'i ôl ei ddawn gwael oedd hi'
Stori o lanast ar lwyni.

Yn gwladd i'w gywilyddio
Nes daeth o raid ei daid o;
Cryman chwiban ag awch oedd
Yn drech na chnwd o wrychoedd'
Amynedd yn crymanu'
Ôl llaw ei bwyll y bu.

Mae cryman yr hen ŵr yn chwiban gan awch, ac yn creu crefftwaith o'r berth. Ac wrth i'w dadcu gael blas unwaith eto ar y grefft a gyflawnodd drwy ei oes, mae'n ymddangos i'w ŵr fel petai'n edrych yn ifancach:

Yno yr oedd yn ŵr iau
A'i wyneb fel f'un innau;
Roedd cynnwrf rhyw ddoe cynnar
Yn bwyhau ei 'sgwyddau sgwar;
Yno roedd llanc, ac roedd lli
Ei wythiennau'n ffarth a heini.

Tua diwedd yr Awdl cawn y bardd yn dad balch yn cyflwyno ei fab bychan, hwnnw yn fwrlwm o egni.

O na ba imi'r bywyd
Sy'n gyffro ynddo o hyd;
Yn ei wely fel olwyn
A'i draed yn ymyl ei drwyn,
Yna'i gorff yn fellt i gyd,
Ebol yng nghampau'i febyd.

Heulwen y byd yw'r clown bach
A'i winc wna finnau'n sioncach;
Dau lygad fel lleuadau
A'i holl dân ynddynt ill dau,
Ei lon wich yn ail i neb
A'i wên yn lledu'i wyneb.

Cyn dod eog o hogyn
Mor llonydd oedd dyfroedd dyn,
Llonydd, nes gweld eu llenwi
Gyda 'machgen eurban o;
Ail waed oedd, newydd li i'w dad
O raedr y dechreuad.

Ond pan ddaw dyn yn dad, draw yn y pellter mae cymylau henaint i'w gweld yn nesáu yn araf bach.

Ei anadl yw fy henoed,
Hen ofn dyn y fynd o oes;
Yn ei nerth af innau'n wan
A'i wên aur yw 'ngwallt arian';
Hwn yw Mai'r gwanwyn i mi
A Mai hedyn fy Medi.

Cewch yr Awdl hon yn gyfan yn ei gyfrol "*Cadw Gŵyl*".

T.M.Thomas

L.J. BAILEY A'I FEIBION

LLANGADOG (Siop Fwydydd MACE)

*Prisiau cystadleuol
Pob math o gig a bacwn o ansawdd da
Gwasanaeth rhagorol bob amser*

☎ (01550) 777217 [Bwydydd]

☎ (01550) 777242 [Cigydd]

Roger Davies
LLOGI PEIRIANNAU

Gwnawn unrhyw waith -
bach neu fawr

10 mlynedd o brofiad

☎ (01558) 685614

☎ 07968 838467

Peiriannau turio â thraciau 5-15 tunnell.
Pob math o waith sylfeini, ar gyfer ceffylau, tirlunio
draeni ac unrhyw waith arall gyda pheiriannau
tymion.

Cwmgolygfa, Rhydcymerau,
Llandeilo, Sir Gâr, SA19 7RP

~ CHWARAEON ~

CLWB RYGBI LLANDEILO

Oherwydd cystadleuaeth y Chwe Gwlad a’r tywydd rhewllyd ddechrau Mawrth, nid yw’r *Duon* wedi chwarae ers rhyw fis. Dylai’r tymor fod wedi gorffen ar 1 Ebrill, ond mae gemau cynghrair i’w chwarae, sef Rhydaman, Aberteifi ac Aberdaugleddau gartref, a Neyland, Penfro a Llandybie oddi cartref. Un o’r rhesymau am hyn yw’r ffaith nad yw Undeb Rygbi Cymru yn sylweddoli bod yr holl gemau rhyngwladol yn yr Hydref yn effeithio ar y clybiau ar hyd a lled y wlad. Mae’r sefyllfa yn golygu bod y tymor yn dechrau ym mis Awst gan barhau tan fis Mai.

Un achlysur pwysig ym mis Mawrth oedd dathliad yr Undeb bod 125 o flynyddoedd ers cynnal cyfarfod hanesyddol yng Ngwesty Castell yng Nghastell Nedd ar 12 Mawrth 1881. Cynhaliwyd y cyfarfod yn sgîl colled drychinebus yn erbyn Lloegr yn Blackheath ar 19 Chwefror 1881, sgôr o 82 i 0 yn ôl system sgorio heddiw! Yn cynrychioli Cymru y diwrnod hwnnw, roedd dau chwaraewr o Lanymddyfri, sef y mewnwr Edward Lewis a’r prop Aneurin Rees.

Does ‘na ddim llawer o fanylion am y cyfarfod ond roedd Lanymddyfri a Llandeilo yn bresennol. Mae’n rhyfedd taw cynrychiolydd Llandeilo oedd Charles Prytherch Lewis yn enedigol o Langadog ond a oedd yn arfer chwarae dros Lanymddyfri! Efallai nad yw enw Prytherch Lewis yn adnabyddus heddiw ond ef oedd capten cyntaf Llandeilo yn ystod y tymor cyntaf yn 1871. Mae’n debyg bod chwaraewyr yr adeg honno yn chwarae dros mwy nag un tîm. Fe aeth ymlaen i fod yn gapten dros Gymru yn 1882 yn erbyn Iwerddon ac yn Llywydd yr Undeb yn 1881. Fe chwaraeodd griced dros Sir Gâr hyd 1909 a bu’n Faer Lanymddyfri ym 1904/5. Onid dyma un o gewri Dyffryn Tywi?

I ddathlu’r achlysur, cynhaliwyd gêm ar Faes y Gnoll, Castell Nedd rhwng Castell Nedd a *President’s XV* a oedd wedi’u dewis o blith rhai o’r clybiau a sefydlodd yr Undeb. Huw Davies, bachwr Llandeilo, a gafodd y fraint o chwarae gan ymddangos fel eilydd yn yr ail hanner.

Dyna’r cyfan y mis hwn. Fis nesaf, byddaf yn canolbwyntio ar uchafbwyntiau tymor y *Duon*.

Am fanylion pellach, cysylltwch â Nic Day (01558 823345).

Nic Day

BACHGEN O’R WLAD YN RHEDEG NERTH EI DRAED!

Mab fferm Pantydderwen Llanfynydd yw **Dewi Griffiths**, mae’n 14 mlwydd oed ac yn mynychu Ysgol Tre-gib, Llandeilo ac yn aelod o Glwb Athletau Harries Caerfyrddin a’r Clych.

Bu llynedd yn flwyddyn dda iddo. Llwyddodd i ennill nifer o fedalau ar lefel Cymru, torri sawl record a derbyn ei fest Ysgolion Cymru gyntaf. Ym mis Mehefin, torrodd record 30 mlwydd oed Ysgolion Dyfed, drwy redeg 1500m mewn 4 munud 16.4 eiliad. Yng nghystadleuaeth Ysgolion Cymru cyflwynwyd cwpan sialens Kirsty Wade iddo am berfformiad gorau’r dydd yn y pellter canol. Derbyniodd wahoddiad i redeg yn Mini Marathon Llundain a ras Filltir Sebastian Coe yn Crystal Palace ac ef oedd y cyflymaf dan 15 mlwydd oed.

Serch hynny, mae eleni wedi bod yn flwyddyn well fyth iddo hyd yn hyn. Yn Ionawr cafodd ei ddewis i redeg dros Gymru dan 17 oed yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Ryngwladol Geltaidd yn Nulyn. Syndod oedd deall mai Kevin



PORTHMYN LLANYMDDYFRI

Llwyddiant i’r Porthmyn ifanc yn Ffrainc a Gwlad y Basg

Mae’r porthmyn ifanc newydd ddychwelyd o daith lwyddianus iawn i Dde Orllewin Ffrainc a Gogledd Sbaen. Canolfan y daith i’r timau dan 14 a 16 oedd Biarritz yn Ne Orllewin Ffrainc ond i chware’r gêm gyntaf fe deithiwyd i dref Ordizia yng ngwlad y Basg. Doedd y gwrthwynebwyr ddim o’r safon uchaf ond roedd eu brwdfrydedd yn ddiderfyn hyd y chwiban olaf er i’r Porthmyn ennill 55-0 a 51-0. Dywed y Saes “rain in Spain falls mainly on the plain”. Beth wŷr y Saes am y tywydd? Fe bistyllodd hi lawr yn ystod y gêm ond twymgalon iawn fu’r croeso wedi’r gêm gyda ton ar ol ton o fwyd a gwin yn llifo i’r byrddau a’r gwahaniaeth iaith yn ddim rhwystr o gwbl. Os am groeso cofiwch Ordizia!

Roedd y gêm nesaf yn Dax, un o brif ganolfannau rygbi yn Ffrainc ac roedd y stadiwn yn fendigedig. Fe gollodd y tîm dan 14 o 15-10 ond byddai fideo wedi bod o ddefnydd i ail chware cais olaf Dax. Ar y llaw arall parhau â’i llwyddiant wnaeth y tîm dan 16 gan ennill o 31-0. Wedi’r Rygbi bu’r mwynhau ac fe gafwyd dwy awr o rafftio dŵr gwyllt ar un o afonydd y Pyrenees a bu bron i’r Cyngor golli un o’i weithwyr pan gwympodd i’r afon heb allu nofio!

Roedd y daith yn ganlyniad chwe mis o waith caled a threfnu ac mae diolch y chwaraewyr yn fawr i Dr. Mark Boulter a’i dîm o drefnwyr am hyn. Hefyd, bu tipyn o waith codi arian ac mae’r cymorth gafodd y timau gan fusnesau ac unigolion lleol yn dangos haelioni bobl yr ardal.

Safonau Undeb Rygbi Cymru.

Mae Clwb Rygbi Lanymddyfri newydd fod drwy’r broses o asesiad i glybiau yn y brif adran a’r adran gyntaf, ac wedi dod drwy’r broses â marciau uchel iawn. Yn wir fe ddywed rhai bod y cyfleusterau ym Manc yr Eglwys yn cael eu defnyddio fel esiampl i glybiau eraill. Mi fydd yn rhaid i bob clwb yn yr adran gydymffurfio â’r safonau newydd ynghyd â’r timau sy’n cael eu dyrchafu o’r adran gyntaf. Onid y gwir yw fod hyn yn rheol arall y bydd rhaid i Undeb Rygbi Cymru ei newid, gan ei bod yn hysbys i lawer bod yna bosibilrwydd na fydd digon o dimau yn cyrraedd y safon angenrheidiol i barhau yn yr adran. Yn waeth byth ydy sefyllfa y timau sy’n cystadlu am ddyrchafiad. Ydy’r rhain i fod i wario miloedd yn codi eu safonau ond i gwympo ar y glwyd ddiwethaf? Gobeithio bydd mwy o drefniant ar ddewis hyfforddwr newydd! **J.K./D.D**

LLANGADOG parhad

Emyn Dôn ar yr Organ dros 12 oed – Sara Morgan
Cydadrodd dan 12 oed – Parti Iolo
Cydadrodd dros 12 – Parti Ffion
Darllen Emyn ar y pryd dan 12 oed – Heledd Roberts
Darllen Emyn ar y pryd dros 12 oed – Sara Morgan
Parti Unsain – Parti Bethan
Parti Deulais – Parti Bethan
Parti Emyn Cyfoes – Parti Bethan
Ateb 6 chwestiwn dan 12 oed – Iolo Roberts, Heledd Roberts, Carys Davies, Jack Davies, (pawb yn gydradd)
Ateb 6 chwestiwn dros 12 oed – Ffion Davies
Llenyddiaeth dan 12 oed – Anwen Griffiths
Llenyddiaeth dros 12 oed – Sara Morgan (1af ac 2ail)
Cyfieithu darn o’r Saesneg – Sara Morgan
Arlunio a Lliwio dan 7 oed – Sara Amy Jones
Arlunio a Lliwio 7 i 11 oed – Elen Fflur
Arlunio a Lliwio 12 i 15 oed – Luned Henry
Arlunio a Lliwio 16 i 18 oed – Sara Morgan
Llawysgrifen o dan 7 oed – Manon Roberts a Steffan Thomas (cydradd 1af)
Llawysgrifen 7 i 11 oed – Heledd Roberts
Llawysgrifen 13 i 15 oed Luned Henry
Cystadlaethau’r Oedolion:
Limrig – Eurwen Bowen
Brawddeg gyda phob gair yn dechrau â’r llythyren ‘A’ – Dilys Williams

Arweinyddion y noson oedd Mr John Williams a Mrs Mair Cooper a’r gyfeilyddes oedd Mrs Gillian Henry. Rhannwyd y gwobrau ariannol allan gan Mrs Rhian Morgan a chadwyd sgôr y marciau gan Mr Alun Williams. Swyddogion Pwyllgor yr Eisteddfod oedd:- Llywydd – y Parchedig Kenneth Lintern; Cadeirydd – Mr John Williams; Trysorydd – Mrs Nansi Davies; Ysgrifennydd – Mr D. Wyn Williams. Cyflwynwyd y diolchiadau i bawb gan gynnwys y rhai a fu’n paratoi’r plant yn y Gobeithlu ynghyd â’r rhai fu’n gysylltiedig â threfniadau’r noson gan y gweinidog, y Parch Kenneth Lintern.

Y Gymdeithas Ddiwylliadol

Cafwyd nosweithiau amrywiol yn y Gymdeithas Ddiwylliadol yng Nghapel Providence dros dymor y Gaeaf. Cyflwynwyd anerchiadau diddrol iawn ar bynciau amrywiol gan ein gweinidog, y Parch Kenneth Lintern; Parch Ieuan Davies, Waunarlwydd; Mr T M Thomas, Llanwrda; Mr Len Richards, Nantgaredig; Mr Andrew James, Baron’s Court; Mr Wyn Davies, Gelli Aur; a’r Prifardd a’r Prif Lenor Dylan Iorwerth, Llanwnen. Cyflwynwyd nosweithiau darluniadol gyda sleidiau o’u hymweladau â gwahanol wledydd a dinasoedd tramor gan Miss Nansi Davies, Glanaber a Miss Marjorie Hughes, Hafod Newydd. Cafwyd noson gerddorol, yn lleisiol ac yn offerynnol, gan deulu’r gweinidog. Dros gyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd cynhaliwyd cyflwyniad o Stori’r Geni, noson o Ganu Carolau, Parti Nadolig yr Ysgol Sul a Chwrrdd Gweddi Undebol i groesawu’r Flwyddyn Newydd yng Nghapel Gosen â ieuencid Gosen a Providence yn cymryd rhan yn y gwasanaeth arbennig a drefnwyd gan y Parch Kenneth Lintern. Diolchir i swyddogion y Gymdeithas Ddiwylliadol, sef Miss Nansi Davies, Glanaber, y Trysorydd a D. Wyn Williams, Lleifior, yr Ysgrifennydd am eu gwaith yn ystod y Gaeaf a aeth heibio.

WILLIAM I. PHILLIPS
DERWENEG, LLANSAWEL
☎(01558) 685446
Symudol 07836598989
CONTRACTWR CLUDIANT
CYNNYRCH CHWAREL

LLANSADWRN

Y Lloffwr

Diolch i Mrs Beti Williams, Cilgwyn, Llansawel am gytuno i ddosbarthu *Y Lloffwr* yn y cylch i’r rhai sy’n dymuno derbyn y misolyn yn rheolaidd. Estynnir croeso i drigolion Esgairdawe, Llansawel a Rhydcymerau anfon hanesion, cyfarchion neu adroddiadau o’r cymdeithasau, y clwb rygbi, ysgolion, y capeli a’r eglwys at yr Uwch Olygydd yn rheolaidd neu eu hanfon drwy law Mrs Beti Williams.

LLANYMDDYFRI

Merched y Wawr Bro Pantycelyn

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol i ddathlu ein Nawdd Sant Dewi ar nos Iau, 9 Mawrth, yng Nghwesty Pen-y-Brenin, Lanymddyfri.

Daeth nifer o ymddiheuriadau i law. Traddodwyd y Fendith gan Enid Gealy, ein Llywydd. Y wraig wâdd oedd Glenys Thomas o Gaerfyrddin, ein Llywydd Cenedlaethol. Cawsom noson bleserus iawn yn ei chwmni wrth iddi bwysleisio pwysigrwydd cofio Dydd Gŵyl Dewi i ni fel mudiad Merched y Wawr. Hefyd, ein cyfrifoldeb dros yr iaith a’n Cymreictod. Trosglwyddodd y Llywydd anrheg iddi ar ei hymwelid â’r Gangen. Diolchwyd yn gynnes iddi gan Olwen Parry, Is-Lywydd y Gangen. Diolchwyd i Ann Williams y Berllan am drefnu’r blodau ar y byrddau ac i’r gwesty am y pryd bwyd blasus iawn. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau, 13 Ebrill pan fyddwn yn croesawu Ann Dorset o Amgueddfa Caerfyrddin. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

PONTARGOTHI

CFfi Dyffryn Tywi

Llongyfarchiadau i’r ddau dîm o Glwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Tywi a gymerodd ran yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus adran iau y sir yn ddiweddar sef Heledd Edwards, Angharad Thomas, Gemma Harries, Ceirios Davies a Dewi Jones. Pob llwyddiant i’r Is-gadeirydd, Heledd Edwards, pan fydd yn cynrychioli’r mudiad ar lefel genedlaethol a llongyfarchiadau iddi ar ennill Gwobr Goffa Delme Evans am ei gwaith canmoladwy yn y gymuned. Cafwyd noson hwylus yn ddiweddar pan fu Nicola Davies, Felingwm yn diddori’r aelodau gyda phawb wedi mwynhau yn fawr.

Neuadd Goffa

Bellach mae’r gwaith sylweddol a wnaed i atgyweirio ac adnewyddu Neuadd Goffa Pontargothi bron â’i gwblhau. Edrychwn ymlaen yn fawr at agor y neuadd ar ei newydd wedd yn y dyfodol agos.





PUMSAINT



Cyfarfod Blynyddol Neuadd y Coroniad

Cafwyd adroddiadau boddhaol iawn am sefyllfa ariannol y Neuadd ar ôl blwyddyn o weithgaredd mawr. Cafwyd Cyngerdd llwyddiannus gan Gôr Rhiannedd Rhys, Gŵyl Mai a Charnifal rhagorol er gwaethaf y glaw, ac roedd aelodaeth Clwb y Neuadd wedi codi i 297. Llwyddwyd hefyd i gael piano newydd sbon trwy gymorth Cyngor Celfyddydau Cymru. Diolchodd Carwyn Edwards i'w gyd-swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth. Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2006-7.

Cadeirydd – Carwyn Edwards, Is-gadeirydd – Esme Jones, Trysorydd – John H Davies, Dirprwy drysorydd – D James Evans, Ysgrifennydd – Eiry Griffith.

Cyngerdd Ysgol Gerdd Ceredigion

Daeth tyrfa dda ynghyd i Neuadd y Coroniad ar nos Wener, 17 Chwefror, i fwynhau gwledd o ganu ac eitemau amrywiol gan gôr o gantorian ifanc o Geredigion dan arweiniad Islwyn Evans. Gwfreiddiwyd y gynulleidfa gan yr amrywiaeth o ganu clasurol, traddodiadol a chyfoes – o'r Meseia gan Handel i Delila gan Tom Jones. Roedd athrylith Islwyn Evans yn amlwg yn ei waith o gyflwyno ac arwain ei gôr ifanc – dim rhyfedd iddo gael ei ddewis fel Arweinydd Côr Ieuencid Cymru. Un o uchafbwyntiau'r noson oedd datganiad gan y cyfeilydd Stephen Pilkington ar y piano newydd a derbyniodd gymeradwyaeth wresog am ei waith. Llywydd y noson oedd Bethan Richards o Feidrim, gynt o Maestroiddynfawr, Pumsaint a chroesawyd hi a'i gŵr Arwyn yn gynnes iawn. Mwynhawyd yn fawr ei haraith ddiddorol ac amserol, a chyflwynwyd blodyn i Mrs Richards i gofio am y noson gan Eiry Griffith, Ysgrifennydd Pwyllgor y Neuadd.

Yn ystod yr egwyl cyflwynwyd rhodd i Cyril Jones, cyn-ysgrifennydd y Pwyllgor gan Carwyn Edwards – darlun hardd o'r Neuadd wedi ei baentio gan Ruth Harries, Brondeilo, ac englyn o waith John Rhys Evans, Gwladeithe. Diolchodd Cyril Jones i bawb am y rhodd ac am y geiriau caredig a dymunodd yn dda i'r Pwyllgor ac i'r Neuadd i'r dyfodol.



Gweler o'r chwith i'r dde Eiry Griffith - Ysgrifennydd, Cyril Jones- Cyn-ysgrifennydd, Bethan Richards – Llywydd y cyngerdd, Carwyn Edwards – Cadeirydd.

Diolchodd Esme Jones, yr Is-gadeirydd i'r Côr ac i bawb am wneud y noson yn un mor gofiadwy a llwyddiannus. Achlysur nesaf Pwyllgor y Neuadd fydd Gŵyl Fai ar ddydd Llun, 1 Mai, ac Annette Haggerty, Penarth Ganol gynt fydd Llywydd y Dydd.

TALYLLYCHAU



Clwb Ieuencid

Cynhaliwyd gornest Tip-it lwyddiannus iawn gan glwb ieuencid Teigrod Talyllychau yn nhafarn Rhydedwin ar 3 Mawrth gyda'r chwarae yng ngofal Beryl Owen a Pat Thomas, Trap a diolchwn yn gynnes iddynt. Cyflwynir elw'r noson at apêl Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr 2007 a charai'r Clwb Ieuencid ddiolch yn gynnes i'r holl gystadleuwyr. Cafwyd noson hwylus iawn gyda 17 o dimau yn cystadlu. Llongyfarchiadau i'r enillwyr, Ruth Morgan, Maes-y-wawr, Nia Williams, Banc, ac Angharad Williams, Ystrad, ac i Martin Pask, Andrew a Stephanie Day am gipio'r ail safle.

Diolchodd Geraint Davies, Glanyrafonddu Isaf i dafarn Rhydedwin ac i'r galwyr am eu cefnogaeth ac i bawb a gyfrannodd wobrau at y raffl ac a gefnogodd y noson. Hefyd diolchodd i arweinwyr y Clwb Ieuencid am eu brwdfrydedd gyda'r holl weithgareddau.

Os dymuna unrhyw un ymuno â'r Clwb Ieuencid maent yn cyfarfod yn y dafarn bob nos Lun o 7-8.30 o'r gloch.

Cinio Blynyddol

Dymuna Geraint Davies ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r cinio blynyddol. Cyflwynwyd siec o £400 i Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli a charem ddiolch i Carwyn Davies, Maerdy Isaf am ei rodd hael.

Ymweliad ag Efrog Newydd

Pleser oedd clywed i'r ficer, y Parch Joanna Penberthy, gael ei dewis i annerch Cynulliad y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd ar Rôl Merched yn yr Eglwys. Yr oedd hyn yn anrhydedd fawr iddi ac yn brofiad arbennig o werthfawr. Anfonwn ein llongyfarchiadau ati.

TRAP



Sefydliad y Merched

Yn hen Ysgol Trap, cafwyd noson hwylus a difyr dros ben yng nghyfarfod Mis Mawrth yng nghwmni ein gwstai, Ellyn Harries, yn sôn am hel achau'r teulu. Wedi ei geni gerllaw Winnipeg yng Nghanaada, roedd Ellyn wedi gwireddu breuddwyd drwy ddod yn ôl at ei gwreiddiau yn y rhan yma o Gymru, sef Carreg y Dwfn – hen fwthyn ar y Garn, Llandyfan. Roedd hanes ei theulu yn un lliwgar a diddorol tu hwnt, ac roedd gan Ellyn ddawn arbennig o ddweud stori. Cafwyd ganddi nifer o enghreifftiau diddorol iawn y daeth ar eu traws wrth astudio lawer i hen gyfrifiad. Rhyfedd fel mae pethau'n digwydd – yn ôl pob tebyg, dyma, efallai, ein noson olaf o gwrdd yn yr ysgol am na wyddwn beth yw dyfodol yr adeilad (a ninnau fel mudiad wedi cwrdd yno ers ein cychwyn nôl yn 1928), a dyna lle'r oeddem yn sôn am hen, hen hanes trigolion y fro hon. Roedd yn noson arbennig iawn, ac ni wnawn anghofio ymweliad Ellyn â ni. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi gan Gwenda Jones. Cafwyd amrywiaeth diddorol iawn yn y gystadleuaeth am hen drysor (heb fod yn werthfawr). Yr enillydd oedd Anne Saunders gydag hen dystysgrif geni.

Ar Nos Lun, 20 Mawrth, cafwyd noson bleserus dros ben yn Neuadd yr Eglwys Llandyfan pan ddaeth aelodau o ganghennau Llansawel, Brechfa, Cwrt Henri, Llandeilo, Salem a Trap ynghyd ar gyfer cyfarfod cyntaf erioed Grŵp Cestyll. Wedi'r cyfarfod a gynhaliwyd mewn modd trefnus dros ben gan Lywydd ac Ysgrifennydd y Grŵp sef Jeanette Thomas a Wendy Griffiths, Llansawel, cafwyd arddangosfa

~ Y GOLOFN GREFYDDOL ~

NID YW EFE YMA

Fel Cristnogion mae'n addas cofio, yn enwedig ar Sul y Pasg, am y gerddi sy'n perthyn yn agos iawn i hanes ein crefydd a'n ffydd: Gardd Eden, Gardd Gethsemane, a Gardd Joseff o Arimathea – Gardd y Bedd Gwag. Ac rwy am aros am ychydig yng ngardd Joseff – yn yr ardd yma y cawn eiriau'r testun: “Nid yw Efe yma”. Mair Magdalen, a Mair mam Iago, a Salome, yn dod at y bedd yn fore ar y Pasg cyntaf i eninio corff yr Iesu. Ac o ganol gardd Joseff o Arimathea rydym yn darllen y geiriau yma – Nid yw Yma. A'r cwestiwn sy'n codi yn naturiol yw – lle ma Ef?

Ga'i ddweud yn gyntaf, nad yw Ef mewn bedd o unrhyw fath – llenyddol na chfundrefnol na thraddodiadol. Ni ellir ei gladdu Ef mewn llyfr nac mewn cyfundrefn nac mewn traddodiad. Nid yw'n garcharor grym chwaith – fe wnaeth sbort o hwnnw; fe'i gadawodd yn gwylied bedd heb ddim ynddo! Ymh'le mae E' te? Ga'i gynnig hyn – y mae lle bynnag y bydd rhyw bererin sy'n torri ei galon am na all fyw hebddo: “Efe a ymddangosodd yn gyntaf i Mair Magdalen”. Yr oedd Ef yn bopeth iddi hi, ac nid oedd bywyd yn bosibl hebddo. Yna, y mae Ef hefyd lle bynnag y mae disgybl sydd wedi methu ac mewn angen am gael ei ffydd wedi ei adnewyddu: “Ac a ymddangosodd i Simon”. Drachefn, y mae Ef lle bynnag y mae un â'i ffydd wedi gwanhau – eisiau credu, a methu â chredu: “Wedi hynny y dywedodd Efe wrth Tomos – moes yma dy fyd, a gwêl fy nwylo; ac estyn dy law, a dod yn fy ystlys; ac na fydd anghredadun, ond credadun”.

Eto, y mae Ef lle bynnag y mae pererinion sydd wedi colli'r ffordd ac mewn angen am gwmni a chyfarwyddwyd: “A bu, fel yr oeddent yn ymddiddan, ac yn ymofyn â'i gilydd, yr Iesu ei hun hefyd a nesaodd, ac a aeth gyda hwynt”. Ac yna i gloi, y mae Ef lle bynnag y mae dau neu dri wedi ymgynnull yn ei enw Ef. Os dymunwn ni, fe ddaw yn westai i'n cartrefi ni: “Ac Efe a aeth i mewn i aros gyda hwynt”.

Daeth gwragedd trist eu gwedd

a'u llwyth o beraroglau

i geisio newydd fedd

y Gŵr a garent orau;

Ond meddai'r angel gwyn

Nid yw lle gynt gorweddodd;

ffarwel i'ch ofnau syn:

Yn Arglwydd a gyfododd.

(Emyn 561 – Caneuon Ffydd)

Parch Lynn Evans

ALUN DAVIES

ADEILADWR

Cilgawod, Caio, Llanwrda, Sir Gâr, SA19 8PG

☎ **01558 650570 [Adre] / 07974 716211 [Symudol]**

e-bost: alundavies1@hotmail.com

Ar gyfer pob math o waith adeiladu, cartrefi newydd, atyniadau, estyniadau, adnewyddu ac adfer adeiladau cofrestredig, toeon a simneau, ffenestri a drysau PVC

Am wasanaeth heb ei ail a crefftwaith o safon.

GERAINT WILLIAMS

*Modurdy Rhosybedw
Ffaldybrenin*

☎ **(01558)**

650609

*Gwasanaeth cyrff moduron ar
gyfer gwaith yswiriant neu breifat*

*Profion MOT, Batteries,
Exhausts*

*Gwasanaeth Adfer
ac Atgyweirio*

~ GWEINIDOG NEWYDD ~

Braf iawn yw cael croesawu y Parch T. Gerwyn Jones a'i wraig Cathy i'r ardal. Fe'i sefydlwyd yn weinidog rhan amser ar eglwys annibynol Capel y Groes, Cilycwm; Bethel, Cynghordy; Salem, Llanymddyfri; a Seion a Bwlchyrhiw Myddfai ym mis Medi diwethaf ac eisioes y mae wedi ei dderbyn gan yr ofalaeth gyda breichiau agored.

Gŵr hynaws, yn llawn hiwmor, eang ei feddwl, bugail gofalus, hyddysg yn yr ysgrythur – pa ryfedd fod ei aelodau mor falch fod yr Eglwys Ddiwigiedig Unedig yn gorfodi eu gweinidogion i ymddeol.

Ganwyd Gerwyn ar fferm ger Hermon, Cynwyl Elfed, cyn i'r teulu symud i Rydaman pan oedd tua naw mlwydd oed. Ac yn Rhydaman y dysgodd Saesneg am y tro cyntaf.

Bu rhaid ymadael ag Ysgol Ramadeg Dyffryn Aman pan oedd yn bedair ar ddeg oed, ac hynny oherwydd afiechyd ei dad. Ac yna allan i'r byd mawr, a bu yn gweithio am y pymtheg mlynedd nesaf gyda chwmni o deilwriaid yn gwneud a gwerthu dillad dynion. Symudodd o gwmpas gryn dipyn a gweithiodd yng nghanghennau Rhydaman, Abertawe, Caerdydd, Aberdar, Pen y Bont ar Ogwr ac Aberystwyth, gan ddod yn rheolwr yn ifanc iawn. Ond fel y bu i Seimon Pedr adael y rhwydi, fe adawodd Gerwyn yrfa ddisglair ym myd busnes i dilyn y Gŵr, a cafodd le yng Ngholeg Coffa Abertawe i ddarllen am radd B. D. Fe'i ordeiniwyd ym Methel Llansamlet a Saron Gelli Fedw yn 1973, cyn symud i Gapel yr Alltwn yn 1980 tan 1997. Ac yna i weinidogaethu yn Aberhonddu gyda'r Eglwys Ddiwydiedug Unedig. Tra yn Aberhonddu cafodd Gerwyn ergyd fawr pan gollodd ei wraig, Jill, i glefyd y cancr. Y mae iddynt un ferch, Rhiannon, a'i gŵr Peter yn weinidog yn ardal Caerdydd; mae ganddynt hwythau ddwy ferch. Ar ôl y tristwch daeth eto haul ar fryn, a phriododd am yr eilwaith â merch hyfryd arall, sef Cathy, brodor o dref Aberhonddu, ac ar ôl ymddeol o weinidogaeth lawn amser symudodd y ddau i fyw i Gaer bryn, Penygroes, Rhydaman, a Gerwyn yn dod yn weinidog rhan amser i Lanymddyfri a'r cylch.

Cafwyd cwrdd sefydlu bendigedig yn Salem Llanymddyfri dan lywyddiaeth y cyn-weinidog Y Parch Jill Hayley Harries. Roedd tystiolaeth fendigedig o ardal Aberhonddu a chroesawyd yn frwd gan yr eglwys, a thref Llanymddyfri. Pregethwyd yn rymus gan fab-yng-nghyfraith y gweinidog newydd sef y Parchedig Peter Crutchley Jones.

Boed i fendith Duw fod ar ei weinidogaeth, ac edrychwn ymlaen yn hyderus i gyd-weithio, yn fugail ac yn braidd, am flynyddoedd lawer.

Evan Hughes a Lyn Richards

LLOGI
CESTYLL
NEIDIO

Beth am roi hwyl a sbri i'r parti?!
Cestyll bownsio tu fewn neu'r tu allan

Prisiau o £35 y dydd
Nifer o gestyll â themâu gyda llithren
Dosbarthiad am ddim o fewn 15 milltir

☎ **(01269) 850051**



ATGOF O'R GORFFENNOL



Disgylbion 1960

Gwelir uchod lun o'r dosbarth Cymraeg yn **Ysgol Rhys Pritchard, Llanymddyfri** yn y flwyddyn 1960. Am nad oedd lle yn yr ysgol i'r dosbarth pwysig yma 'roedd yn rhaid adnewyddu rhan o'r cantîn a'i droi yn lle cartrefol iawn. Rhaid cyfaddef fod arogl y coginio yn amharu ar y canolbwyntio weithiau. Dyma enwau'r disgylbion o'r chwith i'r dde.

Rhes gefn

Alan Morgan, Stryd y Castell, Hywel Thomas a Stuart Parry Maesglas, Thomas Price, Wernddu, Eric Williams, Cefnberth, Eirian Davies, Ad-clad

Ail res

Mrs C.A. Preece ein hathrawes unigryw, Ann Richards, Sgwâr y Farchnad, Margaret James, Maesglas, Rhiannon Walters Golwg y Fforest, Sheila Richards, Plasnewydd, Ann Morgan, Stryd y Castell, Mr D.T. Davies, Prifathro.

Yn eistedd

Jean Davies, Gellideg, Lona Lloyd, Ystrad, Ann Davies, Gellideg, Joice Lemonheigh, Heol Aberhonddu, Mair Davies, Heol Newydd, Elizabeth Lloyd, Gorsddu.

Rhes flaen

Brian Jones, Banc yr Eglwys, Christopher John Lewis, Llwynjack, Alun Davies, Llwynhywel.

Diolch i Jean Davies, Gellideg am ei charedigrwydd ac am sicrhau bod y llun yma yn gweld golau dydd unwaith eto.

CHWIP O STEDDFOD YN 60 OED

Wyddoch chi bod **Eisteddfod Ryngwladol Llangollen** yn dathlu penblwydd arbennig iawn leni? Mae hi'n 60 oed – ac i helpu gyda'r dathlu mae'r Eisteddfod am eich gwahodd chi, i gymryd rhan mewn cystadleuaeth go arbennig.

Ymysg y sêr sy'n dod draw i roi help llaw i ddathlu penblwydd yr Eisteddfod yng nghanol prydferthwch cefn gwlad Sir Ddinbych, mae meistr canu clasurol Cymru, y bariton o Bantglas, Bryn Terfel. Ymddangosodd Bryn ym Mhafiliwn yr Eisteddfod ddeng mlynedd yn ôl, ac ers hynny, mae'r Cymro o Ddyffryn Nantlle wedi datblgyu i fod yn gawr o gerddor sy'n perfformio ar draws y byd. "Rydym ni gyd fel Cymry yn ymfalchio yn ei lwyddiant," eglurodd Gwyn L Williams, Prif Weithredwr Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen, "ac mae hi'n ffrind ac anrhydedd bellach, ei hudo nôl i Langollen i berfformio mewn cyngerdd" ar nos Fawrth, 4 Gorffennaf.

Yn eisin ar y gacen penblwydd leni, bydd cyfle unigryw i glywed hufen corau meibion Cymru, wrth i bedwar côr meibion ymuno i ddathlu penblwydd y Steddfod. Gyda 250 o leisiau ar y llwyfan, bydd Côr Froncysyllte, Côr Godre'r Aran, Côr Pontarddulais, a Chôr Rhosllanerchrugog, yn ymuno i gynnig gwledd o ganu corawl mewn cyngerdd ar nos Wener, 7 Gorffennaf.

Gyda llu o artistiaid eraill yn ymuno â Bryn Terfel a'r pedwar côr yn y cyngherddau, mae'r wybodaeth gyfan ar safle gwe'r Eisteddfod www.eisteddfod-ryngwladol.co.uk. A chofiwch bod cymaint i'w weld a'i glywed yn ystod yr wythnos, o'r cystadleuwyr ar y llwyfan, i'r dawnswyr, perfformwyr a'r stondinwyr ar faes yr Eisteddfod.

Cyswllt: Gwyn L Williams – 01978 862016 neu Ffion Clwyd Edwards – 07702 048184

Cyfle i fwynhau'r Bariton o Bantglas!

Dyma gyfle heb ei ail i ennill dau docyn (sy'n brin fel aur!) i weld Bryn Terfel yn perfformio mewn cyngerdd, nos Fawrth, 4 o Orffennaf, 2006 am 7:45pm. Yn syml, atebwch y cwestiwn canlynol: Mae Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen yn dathlu ei phenblwydd yn faint oed eleni?

Anfonwch eich ateb gyda'ch manylion at: Cystadleuaeth Bryn Terfel, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, Y Pafiliwn, Ffordd yr Abaty, Llangollen, Sir Dinbych, LL20 8SW.

CHECKPOINT



(01558)
650338

*'Tyres, Exhausts a
Batteries'
Profion M.O.T*



TRAP (parhad)

goginio go arbennig gan Dawn Richards, Llanedi. Roedd y bwydydd iach a baratôdd mewn byr amser yn tynnu dwr i'r dannedd. Diolchwyd yn gynnes iddi gan Lynda Hughes, Cwrt Henri. Yna, wedi'r lluniaeth hyfryd a baratowyd gan aelodau Trap, cafwyd hanner awr o adloniant hyfryd dros ben gan gangen Llandeilo, a gwelwyd unwaith eto y cyfoeth o ddawn sydd gan aelodau ein mudiad. Diolchwyd iddynt gan Rosalind Betts, Brechfa. Daeth y noson i ben drwy ganu'r anthemau cenedlaethol gyda Rhiannon Roberts, Trap yn cyfeilio, a phawb yn ffarfelio gan deimlo'n falch iawn eu bod wedi bod yno!

Sioe

Bydd Sioe Amaethyddol Trap yn cynnal noson o ddramâu a berfformir gan Cudyll Coch yn Neuadd yr Eglwys Llandyfan, ar nos Sadwrn, 29 Ebrill am 8 o'r gloch. Byddant yn perfformio dwy ddrama gomedi o waith Ifan Gruffydd, Tregaron, Harri'r Wythfed a Gormod o Bwdin. Bydd offer cyfieithu ar gael ac edrychwn ymlaen at noson hwylus dros ben.

Cyflwynodd Ron Williams, Cadeirydd Sioe Trap anrheg o lun i Geoff Greenstock, fel arwydd o ddiolch y sioe am ddefnydd cae Cilmaenllwyd, a chyflwynodd Llywyddion y Sioe, Eirwyn a Justina Price, Gwpan Tom Howell i Robert Owen Penywaun (Adran y Defaid i arddangoswyr lleol). Hefyd yn y llun mae Trysorydd y Sioe, Pat Thomas, a'r Ysgrifennydd Beryl Owen.




RED DRAGON ATV'S Y DDRAIG COCH

Ffarmers, Llanwrda
**BEICIAU NEWYDD, TELARS
RHANNAU, GWASANAETH**
Dewch ata i gyda'ch Honda ATV
Ffoniwch Irfon ar (01558) 650740

D. LLOYD A'I FEIBION GLANRWYTH, PUMSAINT, LLANWRDA

(01558) 650209 A 650451



SEFYDLWYD 1797

*Masnachwyr coed a nwyddau
adeiladu a ffensio o bob math.
Gwneuthurwyr gatieau pren i
safon "Tir Cymen"*

~ COLEG GELLI AUR~

Mae'n wanwyn hwyr, ac yn anffodus mae hynny yn wir i fferm y coleg fel i bob fferm arall yn yr ardal. Aethpwyd allan â chwrtaithe i ryw 60 o aceri ar y cyntaf o fis bach – dim ond un cwyd i'r cyfer o wrtaith 'Early bite' (26:10:0) Nid oes llawer mwy na lliw yn dangos, mae arnaf ofn. Mae un o fuchesa'u'r coleg yn cael ei rhedeg ar linellau Seland Newydd. Golyga hyn lloia ym mis bach, ac yn arferol eu troi allan i borfa yn syth, ac yn fuan wedyn torri allan y dwysfwyd i gyd. Eleni mae dros gant allan o fuches o gant a hanner eisoes wedi lloia, ac nid oes digon o borfa hyd yma i'w troi allan. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn llaetha cystal ag arfer. Gobeithio fod y gwanwyn rownd y gornel.

Y llynedd, buom yn ffodus i fedru cymryd fferm yn ffinio â Gelli Aur ar denantiaeth fusnes am gyfnod o bum mlynedd. Mae hyn yn golygu ein bod wedi ehangu ein diadell ddefaid i dros bedwar cant o ddefaid. Y bwriad yw wyna yn hwyr, sef dechrau Mai, a pheidio â bwyda dwysfwyd o gwbwl. Mwy am hyn eto.

Er mwyn i'r myfyrwyr cael profiad o reoli bridio, neilltuwyd grŵp bach o ddefaid at y pwrpas. Ar ddiwedd hydref, rhoddwyd spwng o'r hormon 'progesterone' yn y defaid, ac yna ar y deuddegfed diwrnod ei dynnu allan, ac ar ôl chwistrelliad o gemegyn P.M.S.G. i gael amlhau yr wyau (ac felly gobeithio am fwy o ŵyn) trowyd yr hyrddod atynt. Ar y cyfan bu'r arbrawf yn llwyddiant, ond mae'n rhaid gofyn y cwestiwn faint o fantais yw cael pedwar a phump o ŵyn gan un ddafad. I'r myfyrwyr 'roedd gweld a bod yn rhan o'r arbrawf yma yn fantais fawr.

Mae myfyrwyr y flwyddyn gyntaf ar hyn o bryd allan ar brofiad gwaith am bump wythnos – yn wyna yn bennaf. Os oes gan unrhyw un o ddarlennwyr y Lloffwr diddordeb mewn cael myfyriwr yn y dyfodol, yna cysylltwch â'r coleg.

Lyn Richards

YSGOLORIAETH GARETH RAW REES

Hoffech chi deithio tramor a gweld y byd?

Hoffech chi deithio'r byd a dysgu rhagor am amaethyddiaeth mewn gwledydd eraill? Efallai mai dyma eich cyfle. Mae Ysgoloriaeth Goffa Gareth Raw Rees yn cynnig gwobr o £1,000 i amaethwyr ifanc ddysgu am y diwydiant wrth deithio'r byd.

Os ydych chi o dan 30 mlwydd oed, ac yn ystyried mynd i deithio o fewn y DG, Ewrop neu hyd yn oed yn bellach yna cysylltwch â NFU Cymru am ffurflen gais – hyd yn oed os yr ydych yn barod wedi derbyn cymorth drwy ysgoloriaeth neu chronfa arall.

Lansiwyd yr ysgoloriaeth ym 1984 er cof am Gareth Raw Rees MBE, o Geredigion. Bu Gareth Raw Rees yn hynod weithgar yn hyrwyddo buddiannau pobl ifanc mewn ffermio a chefn gwlad. Roedd yn credu'n gryf fod teithio tramor, a thrwy hynny, brofi bywyd gweithiol a diwylliant newydd, yn ehangu gorwelion addysgiadol yr unigolyn.

Llynedd, cafodd tri unigolyn y cyfle i deithio dramor gyda chymorth yr ysgoloriaeth, buont yn Canada, UDA a Seland Newydd.

Os hoffech chi dderbyn ffurflen gais, cysylltwch â Dylan Morgan, Cyngorwr Polisi NFU Cymru ar 01982 554200 neu ebost dylan.morgan@nfu.org.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Mai a bydd enw'r enillydd yn cael ei gyhoeddi yn y Sioe Frenhinol.

~ CYFARCHION ~

Genedigaethau

- Llongyfarchiadau i Rachel a Dafydd, Fferm Tyllwyd, Felingwm ar enedigaeth eu mab Iolo, ŵyr i John a Hazel James. Treuliodd Iolo fisoedd cyntaf ei fywyd mewn ysbyty ond bellach mae wedi cyrraedd adref.
- Mae'n dda gennym gyhoeddi genedigaeth merch fach i Gareth a Lorraine, Blaenau, Ffarmers. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddynt ar yr achlysur hapus yma. Teulu arall sydd yn dathlu genedigaeth yw Ian a Rebecca Price, Erwau, yn dilyn genedigaeth mab bach – Isaac Francis. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddynt hwythau hefyd.
- Llongyfarchiadau hefyd i Lilsa ac Aled, Frongoch, Nantgaredig ar enedigaeth bachgen bach, Gareth Richard, ŵyr i Lloyd a Sylvia Thomas.
- Llongyfarchiadau i Sian [nee Watts] a Richard Lloyd, Radyr, Caerdydd ar enedigaeth eu merch fach o'r enw Ela Gwen Talfan Lloyd ar 26 Chwefror yn Ysbyty Prifysgol, Caerdydd, yn pwyso 7 pwys 8 owns. Wyres gyntaf i Martin a Glenys Watts, Llanwrda ac Helen Lloyd, Penarth.
- Llongyfarchiadau i Roger a Glenda Thomas, Penrhiwlas, Cwm-duar enedigaeth ŵyr bach, o'r enw Rhys, mab i'w merch Bethan a'i gŵr yn Hong Kong. Gobeithio iddynt fwynhau eu hymweliad â'r teulu bach yn Hong Kong yn ystod y mis. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddynt i gyd.

Priodas Dda

- Estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog i Mike a Catherine Griffiths, Crudyrwel, Ffarmers ar eu priodas yn ddiweddar, a dymunwn iddynt bob hapusrwydd.
- Llongyfarchiadau calonnog i Andrea a Hywel ar eu priodas yn Peterstone Court, ger Aberhonddu yn yr Hydref. Merch i Dilwyn ac Audrey Roderick, Yr Hen Waith Brics, Cynghordy yw Andrea a Hywel yn fab i Eddie ac Oriel Thomas, Garreglwyd, Trap ac yn nai i'r diweddar Alma Roberts, cyn-Gadeirydd Y Lloffwr. Y gwas priodas oedd Andrew James, Llangadog a'r morwynion oedd Alison (chwaer Andrea) ac Elinor Jones (nith Hywel), gyda Mari Wyn a Cadi Fflur yn forwynion blodau. Y mae Andrea a Hywel bellach wedi ymgartrefu yn Rhiw'r dorth, Pentrefelin, Llandeilo. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.



CYNLLUNIAU
Ar gyfer Tai Newydd, Estyniadau a Grantiau
MARTIN WATTS

Maesyreos, Llanwrda, Sir Gâr
Ffôn: Llangadog (01550) 777591

Priodas Ddiemwnt

- Llongyfarchiadau gwresog i'r Parch a Mrs T Glenville Rees, Glennydd, Llansawel ar ddatlu pen-blwydd priodas ddiemwnt ar 2 Ebrill.
- Llongyfarchiadau gwresog i Oswald a Betty Davies, 10 Bro Marlais, Brechfa ar ddatlu eu priodas ddiemwnt yn ddiweddar.
- Llongyfarchiadau i Griff a May Rogers. Banc-y-glyn, Llansawel ar ddatlu eu priodas ddiemwnt ar 2 Mawrth. Anfonir cyfarchion oddi wrth Mair, Megan, Lydia, Eric, Islwyn, Elgan, yr wyrion a'r gorwyrion.

Catref Newydd

- Pob dymuniad da am iechyd ac hapusrwydd i Bob a Margaret Lenny, Meillionen, Brechfa sydd wedi ymgartrefu mewn cartref newydd ym mhentref Peniel.

Penblwydd

- Dymuniadau gorau am iechyd ac hapusrwydd i Mrs Margaret James, Ystrad, Nantgaredig ar ddatlu ei phenblwydd yn naw deg mlwydd oed ar 29 Mawrth.
- Anfonwn ein llongyfarchiadau calonnog a'n dymuniadau gofau at Mary Williams, Neuaddwen, Talylychau ar ei phenblwydd yn 80 oed ar 18 Mawrth.

Swydd Newydd

- Llongyfarchiadau i Daniel Davies, Llys Helen, Ffarmers ar dderbyn swydd newydd gyda Chwmni Airbus ym Mryste. 'Roedd Daniel yn gweithio yn Daventry yn Swydd Essex, ond yn dyheu am ddod 'nol yn agosach i Gymru – a daeth y cyfle yn sydyn. Pob hwyl iddo wrth ddatblygu ei yrfa.

~GWELLHAD BUAN~

- Braf croesawu trigolion Llanarthne nôl adref yn dilyn cyfnod mewn ysbyty – Mr Evan Davies, Cliftonville a Mrs Dorothy Jones, Garreg Goch Ganol – cofir hefyd am y rhai sy'n gweini'n annwyl amdanynt. Dymunir adferiad iechyd i ddwy arall o'r plwyfolion Mrs Lal Bennet, Llwynocrwn a dderbyniodd lawdriniaeth i'w chlin yn Ysbyty Llanelli a Mrs Elsbeth Jones, Wern a gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Treforus.
- Llwyd wellhad i Llinos Dyer, 20 Maesygroes Brechfa a dderbyniodd lawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili'n ddiweddar.
- Da yw deall bod Mr John Thomas, Gwynfryn, Cwm-du yn gwella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Anfonwn ein dymuniadau gorau ato am adferiad iechyd buan.

Blodau Blodau Blodau at bob achlysur Blodau Blodau

Farmyard Nurseries, Heol yr Orsaf, Llandeilo (01558) 824238 / (07796) 456490

Gwasanaeth blodau cyflawn
Cofwch alw mewn neu gallwn ddosbarthu

Arbenigwyr mewn
Blodau Priodas (ffres neu sidan)
Phob Achlysur
Blodau Angladd (traddodiadaol neu unrhyw steil)

Amserau agor yr Haf
Llun 10am-3pm
Mawrth-Sadwrn 10am-5pm
Sul 10am-4pm
Dewch i ymweld â'n canolfan blanhigion newydd.
Anfonir blodau yn genedlaethol a rhyngwladol.
Parcio yn gyfleus.

~ O'R YSGOLION ~

YSGOL TEILO SANT



Dyma lun o Llywelyn Thomas, disgybl B5 sydd wedi llwyddo i ennill bathodyn Blue Peter - rhywbeth go anghyffredin! Ei ddiddordebau yw chwaraeon, edrych ar ôl ei ieir a'i anifeiliaid - dyna pam y cafodd y bathodyn.



Dewiniaid y bêl hirgron

Llongyfarchiadau gwresog i bedwar cyn ddisgybl sy'n prysur anfarwoli eu hunain ar feysydd rygbi rhyngwladol. Mae Martin Thomas a Rhys Priestland yn chwarae yn dawnus i dîm Cymru dan 18, a bu Lloyd Jones a Gruffudd Jones yn chwarae i dîm cenedlaethol yr Urdd a fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth 7 bob ochr yr Urdd a gynhaliwyd yn Dubai. Braf yw gweld y cyfleoedd a gawsant i feithrin eu doniau yn yr ysgol gynradd yn dwyn ffrwyth.

YSGOL GYNRADD NANTGAREDIG

Dechreuodd y tymor newydd gyda'r un prysurdeb â diwedd tymor yr Hydref. Cafodd y merched lwyddiant ysgubol ym myd chwaraeon yr Urdd, drwy ennill drwedd i Rowndiau Sirol y cystadlaethau pêl-droed a phêl rhwyd. Un diwrnod daeth dros hanner cant o henoed yr ardal i'r ysgol i fwynhau cinio ac adloniant gyda ni. Bu plant Blwyddyn 6 yn gweini arnynt, a braf oedd gweld y cenedlaethau yn sgwrsio a chymdeithasu yn arbennig o dda. Derbyniwyd nifer o lythron o ddiolch gan bobl oedd wir wedi mwynhau'r diwrnod. Dymunwn lwc dda i dîm nofio'r merched, ac i Rhiannon Murphy fel unigolyn, pan fyddant yn cystadlu yng nghystadleuaeth nofio'r Urdd yn Abertawe. Gwelwyd sesiynau'r Urdd ar nos Fawrth a nos Fercher yn mynd yn eu blaen yn hwylus, gyda phob math o weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer y plant.

JOHN ANTHONY

a'i Gwmni

CERFLUNWYR
COFADEILIAU
a SEIRI MAEN



Perch. E. Ja
N. Gimblett
(C. Harry gynt)

28a STRYD FAWR, RHYDAMAN

☎(01269) 596227 Nos: 592935

Cerflunwyr Cofadeiliau yn lle uchod ers 1920 hefyd yn

6 STRYD Y FARCHNAD, LLANDEILO

☎(01558) 823104

YSGOL GYFUN PANTYCELYN

Rhodd



Yn y llun mae Mrs Gina Jones yn cyflwyno crysau hoci newydd i Caryl Jones, Capten tîm hoci, o'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Pantycelyn Llanymddyfri. Diolch i Mrs Gina Jones am ei chyfraniad.

Eisteddfod

Ystyriwyd yr Eisteddfod Flynyddol yn Ysgol Gyfun Pantycelyn yn un o'r gorau hyd yn hyn gyda mwy o ddisgyblion nag erioed yn cymryd rhan. Tynnodd y beirniaid sylw at y safon arbennig a'r ffaith bod yna eitemau at ddant pawb.



Gweler Cai Griffiths a enillodd y wobwr i ddysgwyr Cymraeg.



Diddanwyd pawb gan Heledd Watkins yn y Gân Actol tra bod Gareth Morgan yn arddangos ei 'ffigwr' perffaith.



Y tyllwyddiannus oedd Pantycelyn. Gweler Williams Clement Jones, Y Capteiniaid Michael Legg a Teleri Walters gyda Siriol Dyer.





~ O'R YSGOLION ~

YSGOL GYNRADD CAIO

Mae disgybl newydd wedi dechrau'r ysgol, sef Archi Warren. Mae Archi yn mwynhau'r ysgol yn fawr iawn.

Bu Carys, Deian, Emyr a Delun yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd, Deian yn chwarae'r piano (cyntaf) Carys yn chwarae'r ffidil (ail) a'r Alaw Werin (ail). Daeth parti yr ymgom yn ail.



Yn y llun o'r chwith i'r dde gweler Delyn Davies, Deian Thomas, Carys Haf Evans ac Emyr Davies – 2il yn yr Ymgom

YSGOL GYNRADD LLANSADWRN

Ar ddechrau tymor y Gwanwyn croesawyd disgybl newydd i ddosbarth y babanod sef Ben Clarke. Daeth PC Bev Anderson i siarad â'r plant am ddiogelwch personol. Bu Elinor Thomas o'r Frigâd Dân yn yr ysgol hefyd yn sôn am ddiogelwch tân. Mwynhaodd plant blynyddoedd 5 a 6 Sioe Bypedau gan "Mega-U" yn Ysgol Llangadog. Roedd yn sioe hwylus gyda neges bwysig – sef dysgu am beryglon cyffuriau. Cafodd Sam, disgybl ym mlwyddyn 6 gyfle i fynychu Eisteddfod Ysgol Pantycelyn. Bu ef hefyd yn y Ganolfan Iaith yn Ysgol Pantycelyn yn ystod y tymor.

Mae Sam, Megan a Pixie wedi bod yn ymarfer gyda'r Ensembl Gitârs eleni. Bydd cyfle iddynt chwarae mewn cyngerdd yng Nghaerfyrddin yn ystod tymor yr Haf. Cafodd yr adran iau brynhawn wrth eu boddau yn Ysgol Pantycelyn mewn gig gyda'r grŵp pop Cymraeg, *Frizbee*. Trefnwyd yr achlysur gan Fenter Bro Dinefwr.

Er gwaethaf yr eira ar Ddydd Gŵyl Dewi, cafwyd cyfle i ddathlu gŵyl ein Nawddsant yn nes ymlaen yn yr wythnos. Cynhaliwyd sesiynau diddorol gan Adran yr Urdd yn ystod y tymor yn cynnwys sesiwn gyda Sioned Fflur, Bingo, chwaraeon gyda Mr Salt a chelf a chreffft ar gyfer yr eisteddfod.

Gwahoddwyd y plant i gyd i berfformiad o'r opera *Y Dolffin* gan Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru a disgyblion ysgolion Capel Cynfab a Chilycwm. Bu'r plant lleiaf yn mwynhau Sioe *Ar y Ffordd* gyda *Gari Gofal* yn Ysgol Llangadog. Bydd Cyfeillion Ysgol Llansadwrn yn cynnal Te Pasg yn yr ysgol ar 6 Ebrill am 2 o'r gloch. Mae'r plant wedi bod yn ymchwilio i hanes yr ysgol, drwy edrych ar lyfrau Log, hen luniau ac arteffactau. Anfonwyd holiaduron i gyn-ddisgyblion a derbyniwyd nifer o atebion diddorol dros ben. Bydd ffrwyth eu llafur yn cael ei arddangos yn ystod Adunied yr Ysgol a gynhelir ar Ddydd Sadwrn, 27 Mai. Croeso cynnes i gyn-ddisgyblion, athrawon a ffrindiau'r ysgol! Os oes gennych unrhyw atgofion neu luniau yr hoffech eu rhannu, croeso i chwi gysylltu â'r Ysgol ar 01550 777 549 neu ar e-bost : head.sadwrn@ysgolccc.org.uk.

YSGOL GYNRADD LLANGADOG

Llongyfarchiadau i'r bechgyn am ennill twrnament pêl-droed 10 bob ochr yr Urdd, a phob lwc wrth fynd i gynrychioli'r ardal yn y rownd nesaf. Cystadlaethau traws gwlad Dyfed sy'n denu brwdfrydedd pawb yn awr, ac fe fydd llond bws ohonom yn teithio i Nantyci i gystadlu cyn diwedd y mis.

Fe gawsom benwythnos go brysur yn ddiweddar, gyda chystadlu brwd yn Eisteddfod Gylch yr Urdd. Fe lwyddodd grŵp recorders yr ysgol a'r gerddorfa, y côr, y parti unsain a'r partion dawnio gwerin i fynd ymlaen i gynrychioli'r cylch yn y rownd nesaf, a daeth y parti llefaru'n ail. Yn yr un modd hoffwn longyfarch Heledd Roberts a lwyddodd yn y cystadlaethau llefaru unigol dan 12 a chanu cerdd dant a dymunwn yn dda iddi hithau hefyd. Hoffwn ddiolch i'r athrawon am yr holl waith caled, ac i Kirsty Knight, un o'n cyn-ddisgyblion, a fu'n trwytho'r grŵp dawnio disgo a ddaeth yn ail. Pob lwc i bawb yn y rownd nesaf.

Prysur baratoi at brynhawn arbennig gyda hynafwyr y pentref a wna disgyblion hynaf yr ysgol yn awr; fe fydd y weithgaredd yn rhan o gywaith arbennig gydag adran hanes y sir i gasglu atgofion am yr Ail Ryfel Byd. Fe fydd yr offer recordio i gyd yn ei le, a'r lluniaeth yn cael ei goginio mewn da bryd i groesawu'r boneddigion.



Y grŵp yn gwerthuso'r gwaith ar gyfer cystadleuaeth Dylunio a Thechnoleg y BBC

Mae gan un grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 6 gystadleuaeth Dylunio a Thechnoleg arbennig o'i flaen: creu creadur sy'n symud yn fecanyddol. Dymuniadau da blant!

Edrychwn ymlaen hefyd at ein hymweliad breswyl â Gwersyll yr Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd. Fe fyddwn yn cael cyfle gwyh i werthfawrogi adeilad hardd y Senedd, a mwynhau amgueddfeydd y ddinas yn ogystal â gweld y ôl y llenni yn y theatr a phrofi gweithdy celf yno.

Ar Fawrth y cyntaf fe deithiodd criw mentrus o rieni i lawr i Borth Talbot er mwyn cael bod yn rhan o gynnwrf cystadleuaeth 'Cân i Gymru'. Bu'r plant gymaint yn ddoethach gan osgoi peryglon yr eira, a dathlu gŵyl ein nawddsant ar y dydd Llun olynol.

Fe fyddwn yn dathlu'r Pasg gyda noson o gystadlaethau addurno wyau a hetiau Pasg ar nos Fawrth, 11 Ebrill. Estynnwn groeso cynnes i bawb i ymuno â ni yn neuadd yr ysgol i gael lluniaeth ysgafn ymysg y stondinau a'r sbri.

YSGOL GYNRADD TALYLLYCHAU

Llongyfarchiadau mawr i'r plant a fu'n cystadlu yn unigol ac mewn grwpiau yn Eisteddfod gylch yr Urdd. Fe ddaeth llawer o wobrau yn ôl i Dalyllychau a daethant yn ail am y darian i ysgolion dan 50 o blant.

Llongyfarchiadau i Carwen George a aeth ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir ar y clarinet ac i Aron Evans am ei lwyddiant yn y gystadleuaeth Celf a Chreffft. Mae disgyblion yr ysgol a phobl ifainc y pentref yn cymryd rhan gyda ieuencid Blaenau Tywi mewn perfformiad o 'Llyn y Fan' ar 1 Ebrill yn Ysgol Pantycelyn. Pob hwyl iddynt.

~ MARWOLAETHAU ~

• **Mr Ben Roderick**, Maesyderi, Salem a bu farw ar 21 Chwefror ac yntau bron yn nawdeg mlwydd oed, priod hoff Megan a thad annwyl Mary a Gareth, tad yng nghyfraith parchus Brian a Hilary a thadcu annwyl Tony, Delyth, Dafydd, Wyn a'i wraig Enid a'u mab bychan Rhys. Bu'r angladd gyhoeddus yng Nghapel Salem, Heol Galed dan ofal y Parch Edward Griffiths.

• **Mrs Lizzie Ann Davies**, Peniel gynt o Fferm Bwlchyrady, Felingwm Isaf a bu farw ar 20 Chwefror yn 87 mlwydd oed. Priod hoff y diweddar Ben, mam annwyl Iwan a Mair a mamgu gariadus Owen a Gruffydd. Roedd yn wraig garedig, barchus ac yn deyrngar i'r Achos yng Nghapel Horeb. Y Parch Emyr Lyn Evans a wasanaethodd yn yr angladd yn Amlosgfa Arberth.

• **Mr John Davies**, Delfan, Cynghordy (Glanbran gynt) yn 75 mlwydd oed. Priod hoff y diweddar Nesta, tad tyner Keith, ei wraig Penny a'r plant a chymar annwyl Margaret. Cymwynaswr a chymeriad parchus a phoblogaidd.

• **Mr John Evans**, Brynhyfryd, Capel Isaac a bu farw'n 86 mlwydd oed. Priod y diweddar Sheila a thad annwyl Anne, Margaret a David a thadcu caredig Emma, Gareth a Catrin.

• **Mrs Dilys Thomas**, 3 Church Street, Llansawel (Llether, Rhydcymerau gynt) a bu farw'n dawel ar 19 Mawrth. Priod hoff Iwan, mam dyner Meiriona, Elonwy a Geraint, mam-yng-nghyfraith Dylan, Gwyndaf a Sharon, mamgu annwyl ei wyrion a'i hwyresau. Bu'r angladd breifat yng Nghapel Rhydcymerau.

• **Mr John Lloyd**, Brynywawr, Pumsaint (Cwmni D. Lloyd a'i Feibion, Glanrwyth). Cydymdeimlir a'i wraig Mrs Hannah Lloyd, ei fab, Tegwyn Lloyd a'r teulu a'i ferch Ceinwen Evans, Cwmnau a'i phriod.

• **Mr Joseia Davies (Jos)**, Penbanc, Ffarmers yng Nghartref Allt-y-mynydd yn ddiweddar, ac yntau newydd ddathlu ei benblwydd yn bedwar ugain oed. Doedd heb gael iechyd da ers peth amser, ond rodd wedi llwyddo i gynnal aelwyd yn Penbanc tan yn ddiweddar. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu a'r cysylltiadau yn eu galar.

• **Mr Bob Scott**, Llangadog a fu farw'n sydyn. Cydymdeimlir a'i wraig Rhiannon (James, Tyllwyd, Felingwm gynt) ac â'r merched.

• **Mr Owen James**, Garej Morris Isaacs, Llanydddyfri a fu farw yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd ar 8 Mawrth. Cydymdeimlir â'i wraig Mrs Janice James a'r merched Siân a Carys a'r teulu oll yn eu colled. Daeth cynulleidfâ gref i'r angladd yng Nghapel Tabernacl, Ffair-fach a oedd dan ofal y Parch Iwan V Evans.

• **Mrs Gwyneth Watkins**, Gwyndris, Heol y Maerdy, Ffair-fach a fu farw'n sydyn ar 7 Mawrth. Yn enedigol o Llansawel, bu hi a'i phriod Idris a'r plant Tony, Martin, Llinos a'r diweddar Dianne yn byw ym Manordeilo cyn symud i Ffair-fach yn 1984. Gwraig ddiwyd, amryddawn a phoblogaidd. Bu'r angladd yng Nghapel Shiloh, Llansawel dan ofal y Parch Huw Roberts a'r Parch T. Glenville Rees.

• **Mr Geoff Brown**, Talyllychau a bu farw'n sydyn yn ddiweddar. Cydymdeimlir â'i deulufsydd bob amser yn gefnogol iawn i unrhyw weithgaredd yn y pentref.

• **Mr Tom Davies**, Cartref Caeglas, Ffairfach, ffrind ffyddlon a chydweithiwr diwyd Mrs Harriet Thomas a'r diweddar Howard Thomas, Fferm Broad Oak, Plwyf Llangathen. Bu'r angladd gyhoeddus yn Amlosgfa Arberth.

• **Mrs Heulwen Jennison**, Tregynnwyr (Brechfa a Horeb gynt) priod ffyddlon John a mam annwyl Glen, Ralph a Caroline a chwaer Howell ac Elfyn. Bu'r angladd yn Eglwys St Teilo Brechfa.

• **Mrs Rhiannon Evans**, Pencarreg (Talarwen, Llangadog gynt), priod ffyddlon a theyrngar Dr Gwynfor Evans, mam a mam-gu annwyl iawn.

~ C.F.F.I SIR GAR~

MYFYRWRAIG DDWYIEITHOG Y FLWYDDYN



Llongyfarchiadau gwresog i **Miss Llinos Dyer**, 20 Maesygroes, Brechfa ar gael ei anrhydeddu'n Fyfyrrwraig Ddwyeithog y flwyddyn yn Adran Rheolaeth, Busnes ac Addysg Coleg Sir Gâr yn ddiweddar. (*Gweler yn y llun uchod Llinos yn cael ei chyflwyno â Thystysgrif gan gynrychiolydd o Fenter a Busnes.*)

Ymunodd Llinos gyda'r adran yn Medi 2004 gan astudio NVQ Lefel 2 mewn Gweinyddiaeth a Sgiliau Technoleg Swyddfa. Yn ystod y flwyddyn datblygodd ei hunan hyder yn fawr. Cwblhaodd rannau o'i gwaith a'i aseiniadau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd ei thalent am gyfieithu o fudd i'w chyd fyfyrwyr, darlithwyr a'r Swyddfa Hyfforddi. Treuliodd hefyd amser yn codi arian ar gyfer Plant Mewn Angen.

O ganlyniad i'w hymrwymiad parhaus a'i gallu arbennig, cafodd ei chyflwyno â Gwobr Dwyieithog yr Adran Rheolaeth Busnes ac Addysg sydd wedi ei noddi gan Fenter a Busnes. Yn wir mae Llinos yn hysbyseb gwyh i'r coleg, a'r hyn mae'r coleg yn gallu ei gynnig. Mae Llinos wedi dychwelyd i Goleg Sir Gâr i astudio Diploma Cenedlaethol Uwch mewn Rheolaeth a Buses.

Urdd- Adran Dyffryn Cothi

Mae adran Dyffryn Cothi o'r Urdd wedi bod yn brysur iawn dros y misoedd olaf gyda gwahanol weithgareddau.

Dros gwyll y Nadolig bu'r plant yn codi arian i apel Asia trwy gyllunio cardiau Nadolig a'i gwert ewn gweithgareddau leol. Codwyd £92 tuag at yr apel ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a wnaeth gefnogi'r ymgyrch.

Ar 10fed Chwefror cafwyd Cwis dan ofal Elin Davies & Siân Johnston.

Wythnos diwethaf aeth 10 o blant yr Urdd lawr am ymweliad i orsaf yr Heddlu yng Nglanamman. Cafodd y plant gyfle i ddysgu am waith yr heddlu ac i gymryd rhan mewn rhai o'i dyletsyddau!

Fe fydd Adran Dyffryn Cothi or Urdd yn cwrdd nesaf am noson o Gystadlaethau Pasg ar y 7fed Ebrill yn Neuadd Pumsaint am 6yh.



~ EISTEDDFOD GYLCH YR URDD ~

ENILLWYR CYSTADLAETHAU LLWYFAN 2006

Unawd Bl 2 ac iau
Elen Fflur Davies, Teilo Sant
Unawd Bl 3 a 4
Siwan Fflur Dafydd, Ysgol Teilo Sant
Unawd Bl 5 a 6
Rachel Edwards, Ysgol Rhys Prichard
Deuawd Bl 6 ac iau
Jessica ac Anna, Ysgol Teilo Sant
Parti Bl 6 ac iau (Adran)
Parti Gwenllian, Adran Llangathen
Parti Unsain dan 12 oed.(ysgolion hyd at 50 o blant)
Parti Sarah, Ysgol Llanwrda
Parti Unsain Bl 6 ac iau (ysgolion dros 50 o blant)
Parti Bethan, Ysgol Llangadog
Côr Bl 6 ac iau.(ysgolion hyd at 150 o blant)
Cor Bethan, Ysgol Llangadog
Alaw Werin Bl 6 ac iau
Annika Davies, Ysgol Teilo Sant.
Unawd Chwythbrennau Bl 6 ac iau
Carwen George, Ysgol Talylychau
Unawd Llinynnol Bl 6 ac iau
Cathryn Rees, Ysgol Rhys Prichard
Unawd Piano Bl 6 ac iau
Deian Thomas, Adran Dyffryn Cothi
Unawd pres Bl 6 ac iau
Harry Millage, Ysgol Rhys Prichard
Unawd Telyn Bl 6 ac iau
Rachel Edwards, Ysgol Rhys Prichard
Parti Recorders Bl 6 ac iau
Parti Caryl, Ysgol Llangadog
Grŵp Offerynnol Bl 6 ac iau
Grwp Bethan, Ysgol Llangadog
Unawd Cerdd Dant Bl 3 a 4
Gwennan Haf Campbell, Ysgol Teilo Sant
Unawd Cerdd Dant Bl 5 a 6
Heledd Roberts, Ysgol Llangadog
Llefaru Unigol Bl 2 ac iau
Elen Fflur daves, Ysgol Teilo Sant
Llefaru Unigol Bl 3 a 4
Gwennan Haf Campbell, Ysgol Gymraeg Teilo Sant
Llefaru Unigol Bl 5 a 6
Heledd Roberts, Ysgol Llangadog
Grŵp Llefaru Bl 6 ac iau
Parti Rachel, Ysgol Rhys Prichard
Ymgom Bl 6 ac iau.
Parti Siwan Fflur, Ysgol Gymraeg Teilo Sant
Llefaru Unigol Bl 2 ac iau (Dysgwyr)
Rachel Davies, Ysgol Gynradd Llandeilo
Llefaru Unigol Bl 3 a 4(Dysgwyr)
Medi Stone, Ysgol Gynradd Llandeilo
Llefaru Unigol Bl 5 a 6(Dysgwyr)
Sophie Wheeler, Ysgol Capel Cynfab

Grŵp Llefaru Bl 6 ac iau (Dysgwyr)
Parti Sophie, Ysgol Gynradd Llandeilo
Dawns Cyfrwng Cymysg Bl 6 ac iau
Parti Carys, Ysgol Rhys Prichard
Unawd Merched Bl 7 a 8
Heledd Thomas, Ysgol Tre-gib
Unawd Bechgyn Bl 7 a 9
Johnny Smith, Ysgol Tre-gib.
Deuawd Bl 7 a 9
Ffion a Heledd Thomas, Ysgol Tre-gib
Unawd marched Bl 10-13
Anwen Price, Ysgol Tre-gib
Unawd Bechgyn Bl 10-13
David Price, Coleg Llanymddyfri
Deuawd Bl 10-13
Hawys Jones a David Price, Coleg Llanymddyfri
Unawd Allan o Sioe Gerdd.14-25 oed
Rhian Davies, Ysgol Pantycelyn
Parti Merched Bl 7,8,9,
Parti Carys, Ysgol Pantycelyn
Alaw Werin Bl 7,8,9,
Ffion Thomas, Ysgol Tre-gib
Alaw Werin Bl 10-13
Lowri Pugh Morgan, Ysgol Pantycelyn
Unawd Chwythbrennau Bl 7 - 9
Lisa Childs, Ysgol Tre-gib
Unawd Piano Bl 7 - 9
Lisa Childs, Ysgol Tre-gib
Unawd Llinynnol Bl 7-9
Abigail Hammett, Ysgol Tre-gib
Unawd Piano Bl 10-13
Elin Williams, Ysgol Tre-gib
Unawd Telyn Bl 10-13
Manon Tomos, Ysgol Pantycelyn
Deuawd Piano Bl 13 ac iau
Siriol Dyer a Sara Arthur, Ysgol Pantycelyn
Ensemble 15 – 25 oed
Parti Ffion, Ysgol Tre-gib
Unawd Cerdd Dant Bl 7 – 9
Ffion Thomas, Ysgol Tre-gib
Deuawd Cerdd Dant Bl 9 ac iau
Ffion a Heledd Thomas, Ysgol Tre-gib
Llefaru unigol Bl 7-9
Sian Williams, Ysgol Pantycelyn
Grŵp Llefaru Bl 7,8,9
Parti Carys, Ysgol Pantycelyn
Grŵp Llefaru Bl 10-13 (Dysgwyr)
Parti Sapphire, Ysgol Pantycelyn
Dawnsio Disgo Unigol Bl 7,8,9
Lowri Rees, Ysgol Pantycelyn

D. L. WILLIAMS

lard Pant-yr-Esgair, Talylychau, Llandeilo

Masnachwr llechi a phob math o goed

Bwyd anifeliaild Bibby

☎ (01558)685217(dydd) / 685722 (nos)

EIFION ROBERTS

PLYMWR PROFIADOL

Arbenigwr mewn gwres canolog

☎(01558) 685007



~ EISTEDDFOD GYLCH YR URDD ~

ENILLWYR CYSTADLAETHAU CELF, DYLUNIO A THECHNOLEG 2006

Gwaith Lluniadau 2D..Bl 2 ac iau
Sioned Owen - Ysgol Llansadwrn
Gwaith Lluniadau 2D..Bl3 a 4
Morgan Evans - Ysgol Capel Cynfab
Lluniadau 2D..Bl 5 a 6
Catrin Griffiths - Ysgol Llangadog
Gwaith Creadigol 2D..Bl 2 ac iau
Cerian Roberts - Ysgol Llansawel
Creadigol 2D..Bl 3 a 4
Heledd Land - Ysgol Llanwrda
Creadigol D..Bl 5 a 6
Bethany Fenn - Ysgol Capel Cynfab
Creadigol 3D..Bl 2 ac iau....gwaith Grŵp
Aaron Lewis, LillyHill, Dewi Thomas, Celine Paull - Ysgol Llanwrda
Creadigol 3D..Bl 3 a 4 ...gwaith grŵp
Steffan Davies, Joshua Rees, Gwennan Evans, Rhidian Land - Ysgol Llanwrda
Sion Jenkins, Liam Mainwaring - Ysgol Llansawel
Creadigol 3D..Bl 5 a 6 ...Gwaith Grŵp
Merched blwyddyn 6 - Ysgol Rhys Prichard
Lluniadau 2D..Bl 6 ac iau
Aron Osborne - Ysgol Talylychau
Argraffu Bl 2 ac iau
Sara Davies - Ysgol Rhys Prichard
Argraffu ..Bl 3 a 4
Steffan Roberts - Ysgol Llansawel
Argraffu ..Bl 5 a 6
Bethany Fenn - Ysgol Capel Cynfab
Graffeg Cyfrifiadurol..Bl 2 ac iau
Sara Davies - Ysgol Rhys Prichard
Graffeg cyfrifadurol ..Bl 3 a 4
Steffan Roberts - Ysgol Llansawel

Graffeg Cyfrifadurol ..Bl 5 a 6
Samuel Williams - Ysgol Llansadwrn
Pypedau..Bl 2 ac iau
Rosie Clarke - Ysgol Llansadwrn
Pypedau Bl 5 a 6
Pixie Clarke - Ysgol Llansadwrn
Pypedau Gwaith grwp Bl 2 ac iau.
Yasmin Yelland a Corrie Davies-Lewis - Ysgol Rhys Prichard
Pypedau.. Gwaith grwp Bl 3 a 4
Bethan Price a Ffion Williams - Ysgol Rhys Prichard
Pypedau Gwaith grŵp..Bl 5 a 6
Merched Bl 5 - Ysgol Rhys Prichard
Argraffu / addurno ar ffabrig Bl 2 ac iau
Celine Paul - Ysgol Llanwrda
Argraffu / addurno ar ffabrig Bl 3 a 4
Sam Hill - Ysgol Llanwrda
Argraffu / addurno ar ffabrig Bl 5 a 6
John Davies - Ysgol Llanwrda
Gwaith creadigol 2D tecstiliau Bl 2 ac iau
Siriol Richards - Adran Llangathen
Gwaith creadigol 2D tecstiliau Bl 3 a 4
Bethan Price - Ysgol Rhys Prichard.
Gwehyddu / macramé Bl 3 a 4
Medi Stone - Ysgol Gynradd Llandeilo
Print Du a Gwyn Bl 3,4,5,6,
Alex Brown - Ysgol Rhys Prichard
Print Lliw Bl 2 ac iau
Leah Scott - Ysgol Gynradd Llandeilo
Print Lliw Bl 3,4,5,6
Nia Price - Ysgol Rhys Prichard
Cyfres o brintiau lliw Bl 2 ac iau
Hanna Lewis - Ysgol Rhys Prichard
Cyfres o brintiau lliw Bl 3,4,5,6
Nia Price - Ysgol Rhys Prichard

PROSIECT PAPURAU BRO

Daeth nifer o aelodau Cymdeithas Papurau Bro Sir Gâr a chynrychiolwyr prosiect Rhwydwaith Papurau Bro Antur Teifi ynghyd i Gaerfyrddin er mwyn mabwysiadu cyfansoddiad a fydd, maes o law, yn galluogi'r Gymdeithas i gofrestri fel elusen. Roedd yr ymateb i'r cyfansoddiad, a baratowyd ar gyfer y Gymdeithas yn ôl y gofyn gan aelod o staff Antur Teifi yn un ffafriol iawn. Cytunwyd yn unfrydol y dylid derbyn y cyfansoddiad a sefydlwyd Pwyllgor i'r Gymdeithas fel a ganlyn:
Cadeirydd – Mansel Charles (Y Lloffwr), Is-gadeirydd – Marina Davies (Y Garthen), Ysgrifennydd - Iwan Evans (Cwlwm), Trysorydd – Cris Tomos (Clebran).
Yn ogystal â mabwysiadu'r cyfansoddiad, amlinellwyd sut y gallai prosiect *Rhwydwaith Cenedlaethol Papurau Bro* Antur Teifi fod o fudd i'r Gymdeithas ac i'r papurau bro

JAMES JONES

PRESWYLFA, NANTGAREDIG

Prif asiant:

PHILIPS

Teledu, Fideo a

Sustemau Hi-Fi

HOTPOINT

Peiriannau golchi a sychu,

Oergelloedd a Rhewgelloedd

RHENTU A GWERTHU SUSTEMAU LLOEREN

☎(01267) 290573



Lowri Gwenllian a Debbie Thomas, Sosbanelli; Mererid Vaughan Jones a Mansel Charles, Y Lloffwr; Roy a Rhoswen, Llewelyn, Y Cardi Bach; Iwan Evans, Cwlwm; Cris Tomos, Clebran a Berian Wilkins - Swyddog Datblygu prosiect Papurau Bro Dwyrain Sir Gâr.